

MILLER



Research Evaluation Consulting

Cynnal y Cardi: Gwerthusiad o Waddol Rhaglen LEADER Ceredigion rhwng 2007 a 2020

Adroddiad Gwerthuso Terfynol

Cyngor Sir Ceredigion

Fersiwn Derfynol, Mawrth 2021



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council



Adroddiad Gwerthuso Gwaddol Cynnal y Cardi

Gwerthusiad o Waddol Cynnal y Cardi LEADER Ceredigion:
Adroddiad Terfynol

Dr Nick Morgan, Nick Miller, David Urry / Miller Research (UK) Ltd.



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

nick.morgan@miller-research.co.uk

Pen-y-Wyrlod, Llanwytherin, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 8RG, UK

www.miller-research.co.uk | 01873 851880 | Twitter: @miller_research

Tabl cynnwys

Crynodeb	i
Cyflwyniad	1
Ynglŷn â Cynnal y Cardi.....	1
Ynglŷn â'r gwerthusiad o'r waddol.....	8
Methodoleg	10
Gweinyddu'r Rhaglen a Pherfformiad y Rhaglen	14
Rheoli a Llywodraethu Cynnal y Cardi	14
Cynnydd a wnaed tuag at dargedau	18
Gweithredu Rhaglen LEADER 2007-2013 Ceredigion.....	20
Cynllun Busnes 1: Rhaglen LEADER Cyfnod 2007-2013	21
Cynllun Busnes Plan 2: Rhaglen LEADER Cyfnod 2007-2013	24
Gweithredu Rhaglen LEADER 2014-2020 Ceredigion.....	35
Prosiectau Cydweithredol LEADER Cynnal y Cardi.....	51
Gwaddol, Effaith, a Dull LEADER	58
Cynnal y Cardi a dull LEADER.....	58
Effaith a Diwallu Anghenion Ceredigion	63
Effaith Hirdymor a Gwaddol Cynnal y Cardi	66
Argymhellion	68

Rhestr o dablau

Ffigur 1.1: Dull LEADER: Saith Nodwedd	2
Tabl 3.1: Perfformiad tuag ddangosyddion targedau	18
Tabl 3.2: Perfformiad tuag ddangosyddion targedau: Prosiectau Cydweithio	18

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1.1: Dull LEADER: Saith Nodwedd	Error! Bookmark not defined.
--	-------------------------------------

Geirfa

Talfyriad / Gair allweddol	Diffiniad
CLLD	Datblygu lleol dan arweiniad y gymuned (<i>Community-led local development</i>)
EAFRD	Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (<i>European Agricultural Fund for Rural Development</i>)
LAG	Grŵp Gweithredu Lleol (<i>Local Action Group</i>)
LDS	Strategaeth Datblygu Lleol (<i>Local Development Strategy</i>)
RDP	Rhaglen Datblygu Gwledig (<i>Rural Development Programme</i>)
WEFO	Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (<i>Wales European Funding Office</i>)

Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad o waddol Cynnal y Cardi, y rhaglen LEADER yng Ngheredigion a fu'n rhedeg fel dau gyfnod ar wahân o'r rhaglen rhwng 2007-2013 a 2014-2020.¹

Ynglŷn â LEADER

Cynllun gan yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi datblygu gwledig yw rhaglen LEADER, a gaiff ei gyd-gyllido gan bob aelod wladwriaeth o'r UE a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD). Nod LEADER, a gwmpasir gan y Rhaglan Datblygu Gwledig (RDP), yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb gwledig trwy gefnogi prosiectau datblygu lleol.² Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais cryf ar arloesi, treialu dulliau newydd, rhwydweithio, a gweithio cymunedol 'o'r gwaelod i fyny'. Mae i LEADER y nodweddion canlynol:

¹ <https://www.cynnalycardi.org.uk/>

² https://enrd.ec.europa.eu/policy-in-action/rural-development-policy-figures/priority-focus-area-summaries_en

Ffigur 1.1: Dull LEADER: Saith Nodwedd



Astudiaeth Achos

Mae Bwyd Dros Ben Aber yn grŵp cymunedol o dan arweiniad gwirfoddolwyr yn Aberystwyth ac iddo'r nod o leihau gwastraff bwyd yn y dref.

Fe wnaeth Cynnal y Cardi gyllido'r peilot yn 2019, a helpodd y mudiad i dreialu meysydd o weithgarwch gan gynnwys arloesi wrth reoli gwastraff, ennyn diddordeb y gymuned, ac ymgyrchoedd, marchnata, a hyrwyddo. Ailddosbarthwyd dros 37,000 o brydau bwyd yn y cyfnod a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi.

Fe wnaeth y peilot alluogi'r mudiad i dyfu, profi syniadau newydd, a sefydlu presenoldeb cynaliadwy yn Aberystwyth, gyda thua 60 o wirfoddolwyr gan y grŵp ar hyn o bryd.

Mae Bwyd Dros Ben Aber wedi datblygu'n sylweddol ers y cyllid gan Cynnal y Cardi ac mae wedi gallu sicrhau ffynonellau eraill o gyllid i'w galluogi i ffynnu.



Cynnal y Cardi

Mae LEADER yng Ngheredigion wedi cael ei arwain ers 2007 gan Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) Cynnal y Cardi. Mae'r grŵp gweithredu lleol wedi'i ffurfio o gynrychiolwyr o dri sector – preifat, cymunedol a chyhoeddus. Diben hyn yw sicrhau cynrychioliaeth gytbwys o fuddiannau.

Ar gyfer RDP 2007-2013, ymgeisiodd Partneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion yn llwyddiannus i sefydlu rhaglen LEADER yng Ngheredigion, gan sicrhau £2.5 miliwn mewn cyllid. Dewiswyd Cyngor Sir Ceredigion fel corff gweinyddu'r rhaglen. Ffurfiwyd Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion, a chynhyrchwyd Strategaeth Datblygu Lleol i arwain y rhaglen LEADER.

Ar gyfer cyfnod 2014-2020 y rhaglen RDP, fe wnaeth Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi sicrhau £3.45 miliwn mewn cyllid i weithredu rhaglen LEADER hyd at 2020. Datblygwyd Strategaeth Datblygu Lleol wedi'i diweddarau ar gyfer Rhaglen LEADER 2014-2020, ac fe'i gweinyddwyd unwaith eto gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae cyfanswm o 54 o brosiectau, 9 o brosiectau cydweithio, ac amrywiol weithgareddau animeiddio wedi cael eu cyllido yn ystod cyfnod y rhaglen hyd yma, gyda gwaith yn parhau hyd at ddiwedd cyfnod y rhaglen. Cafodd amrywiaeth o brosiectau a gyllidwyd fel rhan o gyfnodau rhaglenni 2007-2013 a 2014-2020 eu hasesu fel rhan o'r gwerthusiad hwn, gyda phrif gorff yr adroddiad gwerthuso yn cynnwys astudiaethau achos o 12 o weithgareddau cyflawni a chydweithredu Cynnal y Cardi.

Effaith a Gwaddol Cynnal y Cardi

Mae Cynnal y Cardi, dros ddau gyfnod ei raglen, wedi cael effaith cadarnhaol a pharhaol ar y sir, gan ymdrin ag amrywiaeth helaeth o sectorau gan gynnwys yr economi leol, yr amgylchedd, diwylliant, treftadaeth, y Gymraeg, sgiliau ac addysg ac iechyd a llesiant.

Astudiaeth Achos

Roedd Ysgol Fenter y Cardi yn gynllun gan Cynnal y Cardi a oedd yn darparu bwrsariaethau i drigolion Ceredigion a oedd â dyhead i gychwyn busnes newydd neu fenter gymdeithasol. Gweithiodd gyda chyfanswm o 53 o fusnesau o fewn Cyfnod Rhaglen 2007-2013.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, siaradwyd â phedwar o dderbynwyr y cynllun. Roedd dau ohonynt yn dal i redeg eu busnesau yr helpodd y cynllun eu datblygu, tra bod y ddau dderbynnydd arall wedi rhedeg eu busnesau am sawl blwyddyn cyn ymddeol yn achos y cyntaf, a newid swydd yn achos y llall.

Dywedodd pob derbynnydd y siaradwyd â hwy fod y fwrsariaeth wedi bod yn amhrisiadwy i sefydlu eu busnesau, gyda thri o'r pedwar yn ychwanegu na fyddent wedi gallu symud ymlaen gyda'u busnesau heb y cymorth a dderbyniwyd.

Fe wnaeth dau o'r busnesau, sef busnes lluniau priodas a busnes garddio, dderbyn bwrsariaethau a'u galluogodd i fuddsoddi yn yr offer angenrheidiol i wireddu eu syniadau busnes.



Mae Cynnal y Cardi wedi datblygu gwaddol barhaol trwy ddarparu cyllid a chymorth i feithrin gallu nifer o sefydliadau cymunedol, unigolion, a busnesau. Mae llawer o dderbynwyr cymorth LEADER wedi sefydlu eu hunain fel darparwyr gwasanaethau gwerthfawr, neu barhau i ddarparu amrywiaeth o fuddion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol o fewn eu cymunedau. Mae busnesau a gafodd eu creu trwy gymorth gan Cynnal y Cardi yn parhau i weithredu heddiw, gyda chymunedau a mudiadau yn parhau i ddefnyddio asedau a seilwaith a gafodd eu sicrhau trwy gymorth gan Cynnal y Cardi.

Astudiaethau Achos Cynnal y Cardi

Mae Adroddiad Gwerthuso Gwaddol Cynnal y Cardi yn cyflwyno amrywiaeth o astudiaethau achos, yn ymwneud â phrosiectau a gefnogwyd yng nghyfnodau 2007-2013 a 2014-2020 y rhaglen. Mae'r astudiaethau achos hyn yn cynnwys prosiectau cydweithredu hefyd a gyflawnwyd ar y cyd â rhaglenni LEADER eraill yng Nghymru.

Mae nifer o brosiectau arloesol wedi cael eu cyllido a'u cefnogi, gyda rhai o'r prosiectau a adolygwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn rhoi enghreifftiau gwerthfawr o weithredu arloesol a allai ysbrydoli gweithredu tebyg mewn lleoedd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Bwyd Dros Ben Aber, Yma i Chi (Area 43), Cymunedau Caredig (Arts4Wellbeing), Tregaroc, ac Academi'r Dyfodol (Coleg Ceredigion). Mae llawer o brosiectau a gyllidwyd felly wedi gosod patrymau gwerthfawr a all helpu arloesi yn y dyfodol.

Cafodd fideos o astudiaethau achos hefyd eu cynhyrchu fel rhan o'r gwerthusiad³. Mae'r rhain yn cyflwyno gwaddol tri o brosiectau Cynnal y Cardi: Ysgol Fenter y Cardi, Ceredigidol, a'r prosiectau sydd wedi deillio o Gynllun Gweithredu Cymunedol Aberarth. Mae'r fideos astudiaethau achos yn cynnwys cyfweiliadau gyda buddiolwyr y cyllid a'r cymorth.

³ Mae fideo o astudiaethau achos i'w gael ar: <https://www.cynnalycardi.org.uk/evaluation/> (tudalen Saesneg), a <https://www.cynnalycardi.org.uk/gwerthuso/> (tudalen Gymraeg)

Cynnal y Cardi a dull LEADER

Mae'r prosiectau a gefnogwyd gan Cynnal y Cardi wedi glynu at egwyddorion LEADER, gyda thystiolaeth yn cefnogi'r dull 'o'r gwaelod i fyny' a natur gydweithredol llawer iawn o brosiectau. Mae gweithio o'r gwaelod i fyny yn amlwg o fewn cryn lawer o'r prosiectau a aseswyd, gyda'r symbyliad a syniadau am brosiect yn dod yn aml oddi wrth sefydliadau cymunedol, a gweithgarwch nifer sylweddol o wirfoddolwyr ac aelodau'r gymuned wrth gyflawni'r prosiect. Mae prosiectau fel Cyswllt Amaeth, Bwyd Dros Ben Aber, Cymunedau Caredig, Dyfodol Cambrian, a Tregaroc yn dangos yr egwyddor hon yn glir iawn. Roedd cydgysylltwyr prosiectau o amrywiaeth o brosiectau yn sôn am y gwerth ychwanegol y gall dull ar lawr gwlad neu o'r gwaelod i fyny ei gynnig i waith a llwyddiant prosiect.

Mae arloesi yn un o elfennau allweddol LEADER. Mae cyllido prosiectau peilot sy'n cynnig atebion arloesol i broblemau yn rhan greiddiol o'i ethos, ac o ganlyniad, caiff rhaglenni LEADER eu grymuso i fentro a chymryd risgiau. Gwerth ychwanegol allweddol y dull LEADER i nifer o arweinwyr prosiectau a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn oedd y parodrydd hwn i fentro wrth gyllido peilot a oedd yn newydd neu'n arloesol. Roedd rhai o'r prosiectau llwyddiannus ac arloesol a adolygwyd fel rhan o'r gwerthusiad yn cael eu hystyried i fod braidd yn fentrus gan eu cydgysylltwyr, ond mae'r llwyddiant a gyflawnwyd gan brosiectau fel Cymunedau Caredig a Tregaroc yn dangos y budd y gall buddsoddi mewn arloesi gyflawni canlyniadau.

Argymhellion ar gyfer datblygu lleol dan arweiniad y gymuned yn y dyfodol

- i. **Argymhelliad 1** – Mae casglu tystiolaeth o fuddion cymdeithasol sy'n deillio o ymyraethau yn anodd, ond rhaid mynd ati bob tro i archwilio dewisiadau arloesol a dewr o fesur budd cymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o wir am LEADER, gan ei fod yn aml yn cyllido ymyraethau ac iddynt ganlyniadau anodd eu mesur, gyda chanlyniadau ac effeithiau "meddal" a allai fod yn sylweddol.

- ii. **Argymhelliad 2** – Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau mwyaf arloesol yn cael eu lledaenu mewn modd addas o fewn Ceredigion a gyda Grwpiau Gweithredu Lleol eraill ledled Cymru a'r tu hwnt. Mae prosiectau fel Academi'r Dyfodol, Cymunedau Caredig, Yma i Chi (Ardal 43), a Bwyd Dros Ben Aber mewn sefyllfa dda i ysbrydoli mentrau tebyg mewn lleoedd eraill a all barhau i ddatblygu atebion arloesol i'r problemau sy'n wynebu amryw o gymunedau.
- iii. **Argymhelliad 3** – Sicrhau bod y Grŵp Gweithredu Lleol, yn ogystal â chraffu a dewis prosiectau, yn cael ei ddefnyddio fel fforwm i ddatblygu syniadau o'r newydd neu sydd eisoes ar y gweill. Sicrhau bod amser y Grŵp Gweithredu Lleol yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithlon i roi amser i ymwneud â phrosiectau. Gall adrodd cynnydd yn rheolaidd i'r Grŵp Gweithredu Lleol ar brosiectau, a rhoi digon o amser i aelodau'r grŵp drafod prosiectau, roi cyfle iddynt ymateb i brosiectau gyda syniadau a chanllawiau.
- iv. **Argymhelliad 4** – Roedd rhai prosiectau'n dibynnu'n helaeth ar amser ychwanegol a roddwyd gan y prif drefnwyr y tu hwnt i'r oriau craidd neu'r swyddogaethau a gyllidwyd ar eu cyfer trwy Cynnal y Cardi. Roedd rhai enghreifftiau lle'r oedd oriau y talwyd hwyluswyr neu gydgyssylltwyr prosiectau amdanynt yn cael eu hategu gan lawer o oriau ychwanegol a wirfoddolwyd. Argymhellir y dylid, wrth adolygu ceisiadau am brosiectau, ystyried pa mor realistig yw'r rolau y bwriedir eu cyllido, ac a oes angen dyrannu arian ychwanegol ar gyfer digolledu unigolion yn addas am eu llafur.
- v. **Argymhelliad 5** – Sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i weinyddwyr prosiectau ddiwallu eu hanghenion o ran hyfforddiant. Roedd ychydig o feirniadaeth gan un gweinyddwr prosiect y siaradwyd ag ef fod cymorth gweinyddol gan Cynnal y Cardi yn canolbwyntio'n ormodol ar wella'r ffordd roedd y sefydliad yn casglu tystiolaeth. Argymhellir manteisio ar gyfleoedd i ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol i arweinwyr prosiectau, er mwyn ychwanegu gwerth ychwanegol at y cyllid a'r cymorth a ddarperir gan Cynnal y Cardi, a gwella gallu'r sefydliadau cymunedol a gyllidir.

- vi. **Argymhelliad 6** – Adeiladu ar y profiad mae staff Cynnal y Cardi wedi ei ddatblygu dros ddau gyfnod blaenorol y rhaglen a sicrhau y bydd unrhyw fentrau datblygu lleol dan arweiniad y gymuned yn y dyfodol yn gallu manteisio ar yr arbenigedd sydd wedi cael ei ddatblygu trwy weithredu LEADER.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad o Cynnal y Cardi, y rhaglen LEADER yng Ngheredigion a fu'n rhedeg fel dau gyfnod ar wahân o'r rhaglen rhwng 2007-2013 a 2014-2020. Mae'r gwerthusiad yn adolygu effaith a gwaddol Cynnal y Cardi.

Ynglŷn â Cynnal y Cardi

Rhaglen LEADER

Cynnal y Cardi yw Rhaglen LEADER yng Ngheredigion. Cynnal y Cardi oedd yr enw a roddwyd i'r Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) yng Ngheredigion, a daeth hwn y brand a ddatblygwyd ar gyfer rhaglen LEADER Ceredigion ar gychwyn cyfnod rhaglen 2007-2013.

Cynllun gan yr Undeb Ewropeaidd i gefnogi datblygu gwledig yw rhaglen LEADER, a gaiff ei gyd-gyllido gan bob aelod wladwriaeth o'r UE a'r EAFRD. Nod LEADER, a gwmpasir gan Flaenoriaeth 6 y Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) – Cynhwysiant Cymdeithasol a Datblygu Economaidd – yw mynd i'r afael ag anghydraddoldeb gwledig trwy gefnogi prosiectau datblygu lleol.⁴ Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais cryf ar arloesi, treialu dulliau newydd, rhwydweithio, a gweithio cymunedol 'o'r gwaelod i fyny'. Caiff nodweddion dull LEADER eu nodi yn ffigur 1.1 isod.

Cychwynnodd LEADER yn 1991 fel rhan o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae wedi bod trwy nifer o iteriadau ers hynny, ond gwelodd Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013 LEADER yn cael ei 'brif ffrydio' fel elfen orfodol o'r Rhaglen, a oedd yn ffurfio un o'i phedair echel (Echel 4).

Caiff LEADER ei arwain a'i gyflawni gan grwpiau gweithredu lleol (LAGs), sy'n cynrychioli buddiannau economaidd-gymdeithasol sectorau cyhoeddus,

⁴ https://enrd.ec.europa.eu/policy-in-action/rural-development-policy-figures/priority-focus-area-summaries_en

preifat a thrydydd sector lleol, heb ddim un grŵp yn dal mwy na 49 y cant o'r hawliau pleidleisio.⁵

Roedd rhaglen LEADER 2014-2020 yng Nghymru yn cynnwys 18 Grŵp Gweithredu Lleol yn ymestyn dros y 21 o ardaloedd awdurdod lleol gan gynnwys Ceredigion.

Ffigur 1.1: Dull LEADER: Saith Nodwedd



Ffynhonnell: LEADER / CLLD explained⁶

⁵ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/ALL/?uri=CELEX:32013R1303>

⁶ https://enrd.ec.europa.eu/leader-clld/leader-toolkit/leaderclld-explained_en

LEADER Ceredigion 2007-2013

Yn Rhaglen Datblygu Gwledig 2007-2013 roedd Echel 3 (Ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig ac arallgyfeirio'r economi leol) ac Echel 4 yn cael eu gweithredu gyda'i gilydd. Arweiniodd y cynnig ar gyfer gweithredu Echel 3 a 4 o Raglen Datblygu Gwledig 2007-2013, a gyflwynwyd yn 2006 gan Bartneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion, at sefydlu rhaglen LEADER yng Ngheredigion ar gyfer cyfnod 2007-2013 y rhaglen. Dewiswyd Cyngor Sir Ceredigion fel y Corff Gweinyddol ar gyfer y rhaglen. Sicrhaodd y rhaglen dros £2.5 miliwn i gyflawni Cynlluniau Busnes 1 a 2, gyda thros £2 filiwn yn cael ei ddarparu trwy'r RDP.

Ffurfiwyd Grŵp Gweithredu Lleol Ceredigion trwy roi tasg newydd i'r Grŵp Thematig Cymunedau Cryfach i weithredu fel y LAG, gyda newidiadau'n cael eu gwneud i aelodau'r grŵp er mwyn diwallu anghenion y LAG. Datblygwyd y rhaglen LEADER yng nghyd-destun Strategaeth Datblygu Lleol gyffredinol, a ysgrifennwyd yn bennaf gan y Cyngor Sir gyda mewnbwn gan y Grŵp Gweithredu Lleol. Gosododd y Strategaeth Datblygu Lleol y cyd-destun ar gyfer gweithredu Echel 3 a 4.

Datblygwyd y Strategaeth Datblygu Lleol i ymdrin â chwech o faterion strategol:

- Annog amrywiaeth helaethach o gyfleoedd gwaith sy'n talu'n well;
- Camau i godi cyfraddau gweithgarwch economaidd yma;
- Annog gwasanaethau sy'n cefnogi'r economi wledig ehangach;
- Cydgysylltu datblygu seilwaith a gwasanaethau newydd i gefnogi twf busnesau, gan gynnwys twristiaeth a gweithgareddau crefftau;
- Gwella amgylchedd ffisegol aneddiadau a gwarchod y dreftadaeth wledig a naturiol er mwyn cefnogi a diogelu busnesau lleol;
- Cefnogi cydlyniant cymunedol trwy sicrhau bod gan bob un o drigolion Ceredigion gyfle cyfartal i gael at wasanaethau, manteisio'n llawn i'r eithaf ar eu doniau a chyfrannu at wella perfformiad economaidd Ceredigion a chyfrannu at fywyd cymdeithasol yn y gymuned.

Cafodd Rhaglen LEADER 2007-2013 yng Nghymru ei hollti'n ddau gyfnod, gyda Chynllun Busnes 1, a redodd o 2007 i 2011, a Chynllun Busnes 2 a redodd o 2011 i 2014.

Cafodd y Strategaeth Datblygu Lleol ei hadnewyddu ar gyfer cyfnod Cynllun Busnes 2 yn 2009, a daeth hon y Strategaeth roedd prosiectau Echel 4 yn gweithio iddi am weddill y cyfnod. Roedd dwy elfen i Gynllun Busnes 2, sef prosiect Gwella Ansawdd Bywyd Cynnal y Cardi, ac iddo'r nod o wella ansawdd bywyd yng Ngheredigion, a GwarchodNi, prosiect cydweithio gyda Grwpiau Gweithredu Lleol Gwynedd a Powys a oedd yn archwilio atebion arloesol ar gyfer gofal plant. Rhwng popeth, roedd y Cynllun Busnes yn cefnogi 22 o brosiectau cymunedol, ac yn cynnwys Cynllun Bwrsariaeth Ysgol Fenter y Cardi, a gefnogodd 53 o fusnesau unigol gyda chymorth cychwyn busnes.

LEADER Ceredigion 2014-2020

Gwnaed rhai newidiadau i'r Rhaglen LEADER yng Nghymru ar gyfer cyfnod 2014-2020. Nid oedd Echelau 3 a 4 wedi eu cyfuno mwyach, gyda Cynnal y Cardi bellach yn gweithredu Echel 4 yn unig – LEADER. Sicraodd Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi £3.45 miliwn mewn cyllid i weithredu rhaglen LEADER hyd at 2020.

Roedd pum thema i Gyfnod Rhaglen 2014-2020 LEADER yng Nghymru, wedi eu datblygu gan Lywodraeth Cymru. Y rhain oedd:

- Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol, adnoddau diwylliannol a naturiol
- Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
- Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
- Ynni Adnewyddadwy ar lefel Cymuned

- Manteisio ar dechnoleg ddigidol.

Datblygwyd Strategaeth Datblygu Lleol wedi ei diweddarau ar gyfer Rhaglen LEADER 2014-2020 yng Ngheredigion, a ddatblygwyd gan Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi. Roedd y Strategaeth newydd yn dilyn Themâu Strategaeth Economaidd Cyngor Sir Ceredigion, a oedd yn seiliedig ar anghenion Ceredigion. Mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn dilyn pum thema, sy'n gyffredinol gydnaws â'r pum thema LEADER ar lefel genedlaethol a amlinellir uchod:

- Manteisio ar yr Amgylchedd a'r Tirwedd Naturiol
- Adeiladu Economi Seiliedig ar Wybodaeth
- Manteisio i'r Eithaf ar ein Diwylliant a'n Treftadaeth
- Ychwanegu Gwerth at ein Cynhyrchion Sylfaenol
- Datblygu ein Pobl a'n Sefydliadau.

Diweddarwyd y Strategaeth Datblygu Lleol yn 2020 i ymdrin â chyd-destunau newydd a achoswyd gan Covid-19, gyda'r Strategaeth newydd hon i arwain gwaith Cynnal y Cardi yn ei flynyddoedd olaf.

Cafodd rhaglen LEADER Ceredigion 2014-2020 ei gweinyddu gan Cyngor Sir Ceredigion unwaith eto, a'i chyflawni eto gan y Grŵp Gweithredu Lleol, Cynnal y Cardi.

Mae Cynnal y Cardi wedi gweithredu 54 o brosiectau hyd yma sy'n ymestyn ar draws pum thema LEADER.

Mae Cynnal y Cardi wedi ymwneud â gweithgareddau animeiddio. Mae gweithgareddau animeiddio yn un o nodweddion pwysig rhaglen LEADER, wrth ddarparu'r cymorth sy'n datblygu gallu grwpiau i gynllunio a chyflawni prosiectau. Gall gweithgareddau animeiddio fod yn ffurf nifer o ffurfiau, megis cyfeirio grwpiau at ffynonellau eraill o gyllid, cynorthwyo mewn trefnu a chynnal digwyddiadau, rhoi cymorth i feithrein gallu grwpiau i gyflawni a monitro eu prosiectau'n well, a chefnogi cymunedau a grwpiau gyda

gweithgareddau ymgynghori megis cyfarfodydd a holiaduron cymunedol. Mae gweithgareddau animeiddio yn chwarae rhan allweddol mewn meithrin gallu grwpiau sy'n cyflawni prosiectau, gan y gall rhai sefydliadau sy'n derbyn cyllid LEADER, oherwydd eu natur, fod heb brofiad o gyflawni prosiectau.

Mae Cynnal y Cardi wedi gweithredu naw prosiect cydweithio gydag Awdurdodau Lleol cyfagos a phartneriaid eraill, gan gynnwys Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi gyda Gwynedd a Powys, a Phrosiect Dyfodol Cambrian gyda Phowys a Sir Gâr. Bwriad prosiectau cydweithredu LEADER yw annog ardaloedd gwledig i weithio gyda'i gilydd ar brosiectau sydd â budd i'r holl bartneriaid. Mae rhaglenni LEADER yn gallu cydweithredu gyda grwpiau LEADER domestig neu ryngwladol eraill, gyda manteision y cynllun cydweithredu yn cynnwys ehangu gorwelion lleol er mwyn gwella strategaethau lleol, a dysgu oddi wrth ranbarthau neu gyd-destunau eraill i wella arloesedd.

Cyd-destun Ceredigion

Mae Ceredigion yn sir ac iddi boblogaeth o tua 73,000 ar arfordir gorllewinol Cymru. Gyda'i holl wardiau wedi eu dosbarthu fel rhai gwledig, mae tua 75 y cant o'i phoblogaeth yn byw mewn ardaloedd gwledig, cyfran sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 33 y cant. Gan Geredigion roedd y dwysedd poblogaeth ail isaf o unrhyw sir yng Nghymru yn 2011.⁷

Mae gan Geredigion boblogaeth sy'n heneiddio, gydag amcangyfrif fod chwarter y boblogaeth yn 2018 yn 65 oed neu'n hŷn. Cafodd all-lif pobl ifanc ei nodi fel pryder yn Strategaeth Datblygu Lleol 2014-2020 ac yn Strategaeth Gweithredu 2020-35, gyda chreu cyfleoedd er mwyn cadw pobl ifanc yn cael ei grybwyll fel nod. Mae'r boblogaeth oedran gwaith wedi gostwng 14 y cant ers 2001, gyda chynnydd mawr (29.5 y cant) yn cael ei weld yn y categori oedran 65+.

7

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/2011censuspopulationandhouseholdestimatesforwales/2012-07-16>

Yn draddodiadol, mae'r sir wedi bod â lefelau isel o ddiweithdra (3.3 y cant, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.6 y cant⁸), ond lefelau cymharol uchel o dan-gyflogaeth. Mae dibyniaeth uchel ar y sector cyhoeddus am gyflogaeth, gyda'r sector gwasanaethau â goruchafiaeth ar yr economi, yn cyflogi dros 74 y cant o'r gweithlu.⁹

Cafodd lleihad yn y nifer o fusnesau ei nodi fel pryder sy'n wynebu Ceredigion yn Strategaeth Datblygu Lleol 2014-2020. Roedd "genedigaethau busnesau" yn y blynyddoedd yn arwain at 2014 yn sylweddol fwy niferus na "marwolaethau busnesau". Microfentrau yw mwyafrif llethol y busnesau (92 y cant) yng Ngheredigion, yn cyflogi llai na 10 o bobl. Cafodd yr or-ddibyniaeth hon ar fusnesau micro a bach ei nodi fel mater o bryder yn Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35 Cyngor Sir Ceredigion, gyda Cheredigion yn rhannu tueddiad a welir ledled y Gymru wledig o ddiffyg busnesau canolig eu maint.

Mae cyflogau wythnosol gros yn llusgo y tu ôl i gyfartaledd Cymru (£504.4 yr wythnos ar gyfer Ceredigion o gymharu â £541.7 ar gyfer Cymru¹⁰) ond mae wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ôl man gweithio, mae gweithlu Ceredigion yn ennill 84 y cant o enillion cyfartalog yng Nghymru.¹¹

⁸ <https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/report.aspx>

⁹ Rhoi Hwb i Economi Ceredigion: Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35, Cyngor Sir Ceredigion, 2020.

¹⁰ <https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157390/printable.aspx>

¹¹ Adroddiad Gwaelodlin Economaidd, Cyngor Sir Ceredigion, 2020

Ynglŷn â'r gwerthusiad o'r waddol

Caiff Grwpiau Gweithredu Lleol eu hannog gan y Canllawiau Gwerthuso ar gyfer Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER i gomisiynu contractwyr allanol i gyflawni gwerthusiadau o brosiectau LEADER yn eu hardal.¹²

Er nad oes rhwymedigaeth dan contract yn ystod y gwerthusiad hwn i edrych ar raglen LEADER dros gyfnod 2007-2013 y rhaglen, teimlad Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi oedd y byddai o fudd cynnal dadansoddiad o effaith gweithgarwch LEADER dros y ddau gyfnod hwn. Mae dau werthusiad wedi cael eu gwneud eisoes; gwerthusiad terfynol o gyfnod 2007-2013 y rhaglen, a gwerthusiad interim o gyfnod 2014-2020 y rhaglen.

Yn haf 2020, cynhaliodd Cyngor Sir Ceredigion broses gaffael gystadleuol a chomisiynodd Miller Research i gyflawni'r gwerthusiad o waddol Cynnal y Cardi, a oedd yn cynnwys cynhyrchu adroddiad gwaddol, a ffilmio tair fideo astudiaeth achos fer yn arddangos prosiectau a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi.

Strwythur yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn nodi'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad terfynol hwn o waddol Cynnal y Cardi.
- Mae Adran 3 yn rhoi asesiad o'r modd y cafodd Cynnal y Cardi ei weinyddu a'i lywodraethu, gydag adolygiad o gynnydd a wnaed yn ôl y dangosyddion targedau.
- Mae Adran 4 yn archwilio'r hyn a gyflawnwyd yng nghyfnod 2007-2013 rhaglen LEADER Ceredigion, ac yn cynnwys nifer o astudiaethau achos o brosiectau a gyllidwyd gan LEADER o'r cyfnod.

¹²

<https://businesswales.gov.wales/walesruralnetwork/sites/walesruralnetwork/files/documents/LEADER%20Evaluation%20Guidance%20EN.pdf>

- Mae Adran 5 yn archwilio'r hyn a gyflawnwyd yng nghyfnod 2014-2020 o raglen LEADER Ceredigion, sydd hefyd yn cyflwyno nifer o astudiaethau achos o brosiectau.
- Mae Adran 6 yn rhoi asesiad o waddol ac effaith Cynnal y Cardi ers 2007, ac mae hefyd yn adolygu'r graddau y cafodd ei weithgareddau eu cyflawni yn unol â Dull LEADER. Mae'r adran yn diweddu gyda chyfres o argymhellion ar gyfer rhaglenni datblygu lleol dan arweiniad y gymuned¹³ yn y dyfodol o fewn Ceredigion.

¹³ Mae Datblygu Lleol dan Arweiniad y Gymuned (CLLD) yn derm a ddefnyddir gan y Comisiwn Ewropeaidd i ddisgrifio datblygiad o'r gwaelod i fyny, lle mae cymunedau a phartneriaid lleol yn gweithredu strategaethau datblygu lleol.

Methodoleg

Mae'r adran hon yn disgrifio'r dull a ddefnyddiwyd wrth ymchwilio a chynhyrchu adroddiad gwerthuso gwaddol Cynnal y Cardi.

Adolygu Dogfennaeth a Data

Yn dilyn cyfarfod cychwynnol a chynhyrchu adroddiad cychwynnol, cyflawnwyd adolygiad desg o ddogfennaeth a data LEADER. Roedd hyn yn golygu adolygu data meintiol a ddaliwyd ar gyfer gweithgarwch pob prosiect, ceisiadau am gyllid LEADER gan brosiectau cymunedol, adroddiadau monitro ar gyfer holl brosiectau LEADER, cynlluniau busnes Cynnal y Cardi, unrhyw adroddiadau cynnydd i Lywodraeth Cymru, a chofnodion cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Lleol. Cafodd dogfennau o ddau gyfnod y rhaglen eu hadolygu.

Gwaith Maes

Roedd y gwaith maes yn casglu data ansoddol gwerthfawr gan amrywiaeth o unigolion a oedd yn ymwneud â rhaglenni LEADER, boed hynny fel aelodau o'r Grŵp Gweithredu Lleol, swyddogion prosiectau, rhanddeiliaid, neu fuddiolwyr.

Roedd y gwaith cyd-drafod hwn yn cynnwys siarad gyda'r rheini fu'n ymwneud â chyfnod 2007-2013 y rhaglen yn ogystal â chyfnod 2014-2020 er mwyn sicrhau bod y gwerthusiad yn gynhwysfawr.

Yn sgil Covid-19, cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn neu trwy Zoom/Microsoft Teams.

Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid

Cafodd y rhanddeiliaid allweddol a ddewiswyd eu penderfynu gyda'r cleient, ac roeddent yn cynnwys Swyddog Prosiectau, un o rhanddeiliaid allweddol Llywodraeth Cymru ac aelod o'r Grŵp Gweithredu Lleol.

Cyfweliadau gyda Buddiolwyr (x18)

Rhan allweddol o'r gwaith maes a gyflawnwyd oedd cyfweliadau gyda gweithredwyr prosiectau a oedd yn cynrychioli grwpiau neu sefydliadau cymunedol, a buddiolwyr unigol cymorth Cynnal y Cardi. Bydd hyn yn cynnwys buddiolwyr prosiectau o gyfnodau 2007-2013 a 2014-2020 y rhaglen.

Rhwng pawb, cynhaliwyd 11 o gyfweliadau trwyadl gyda gweithredwyr prosiectau, gyda saith cyfweliad pellach â buddiolwyr unigol cyllid a chymorth Cynnal y Cardi.

Adroddiad Gwaddol Terfynol

Mae canfyddiadau o'r gwaith maes a'r adolygiad desg o Cynnal y Cardi wedi cael eu gosod ynghyd wrth gynhyrchu'r adroddiad gwerthuso hwn.

Fideos Astudiaethau Achos o'r Gwaddol

Er mwyn rhoi cyflwyniad diddorol a hawdd ei ddeall a all arddangos gwaddol gweithgareddau LEADER yng Ngheredigion, law yn y llaw â'r adroddiad hwn, bydd Miller Research, ar y cyd â'n cydymaith Nanette Hepburn, yn cyflwyno tri fideo astudiaeth achos yn arddangos prosiectau Cynnal y Cardi. Bydd yr astudiaethau achos hyn tua phum munud o ran hyd a byddant yn cynnwys cyfweliadau gyda buddiolwyr, gan drafod effaith a gwaddol Cynnal y Cardi iddynt hwy. Dyma ddolen i'r fideos:

<https://www.cynnalycardi.org.uk/evaluation/> (ar gyfer y dudalen Saesneg), a

<https://www.cynnalycardi.org.uk/gwerthuso/> (ar gyfer y dudalen Gymraeg).


Mae fideo astudiaethau achos yn rhoi sylw i'r prosiectau canlynol:

Ysgol Fenter y Cardi

Mae'r fideo hwn yn cynnwys cyfweiliadau gyda dau o dderbynwyr bwrsariaeth Ysgol Fenter y Cardi yr elwodd eu busnesau o'r cymorth a ddarparwyd (gweler astudiaeth achos 2 isod).

Cynllun Gweithredu Cymuned Aberarth

Mae'r fideo astudiaeth achos hwn yn rhoi adroddiad o ganlyniadau'r cymorth a ddarparwyd i bentref Aberarth er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu Cymunedol, a arweiniodd at, ymysg pethau eraill, adeiladu lle chwarae i blant yn y pentref. Mae'r fideo yn cynnwys cyfweiliadau gyda thri aelod o'r gymuned a fu'n ymwneud â sicrhau cymorth gan Cynnal y Cardi.



Ceredigidol – Clwb Ffermwyr Ifanc Ceredigion

Prosiect Ceredigidol, a oedd yn ymwneud â datblygu cyfres o fideos hyfforddi i aelodau CFfl, yw'r hyn y sonir amdano yn y fideo astudiaeth achos hwn gan ddau o gyn-swyddogion CFfl a fu'n ymwneud â'r prosiect.



Gweinyddu'r Rhaglen a Pherfformiad y Rhaglen

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad ynghylch gweithredu a rheoli Cynnal y Cardi, a'i berfformiad o gymharu â thargedwyd y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Rheoli a Llywodraethu Cynnal y Cardi

Caiff Cynnal y Cardi ei weinyddu gan Gyngor Sir Ceredigion, gyda Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi yn llywio'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r rhaglen LEADER. Mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn elfen allweddol o raglen LEADER. Ei ddiben yw rhoi cyfleoedd i randdeiliaid lleol ddod yn bartneriaid ac ysgogwyr gweithredol o ddatblygiad eu hardal.¹⁴ Mae'r Grŵp Gweithredu Lleol yn gwneud penderfyniadau ar y prosiect i gael ei gyllido, mae'n comisiynu ac yn cynnig prosiectau, ac mae'n ymwneud â'r gwaith o graffu parhaus ar brosiectau a gyllidir drwy gydol eu cylch bywyd.

Newidiodd cynrychioliaeth ar y Grŵp Gweithredu Lleol ychydig rhwng dau gyfnod y rhaglen, gydag un rhanddeiliad yn nodi bod cynrychioliaeth wedi gwella ar gyfer rhaglen 2014-2020. Roedd mwy o amser wedi ei dreulio ar graffu ar gyfansoddiad aelodau'r Grŵp, a arweiniodd at gynrychioliaeth fwy cytbwys o'r tri sector (cyhoeddus, preifat a chymuned).

Fe wnaeth y dull o redeg rhaglen LEADER yng Ngheredigion newid hefyd rhwng Cynllun Busnes 1 a Chynllun Busnes 2 yng nghyfnod 2007-2013 y rhaglen. O dan Gynllun Busnes 1, roedd prosiectau yn cael eu contractio allan i aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol eu gweinyddu. Prynwyd gweinyddiaeth fewnol ar gyfer Cynllun Busnes 2. Roedd un rhanddeiliad yn nodi bod hyn yn welliant, gan ei fod yn golygu fod prosiectau yn llai tebygol o gael eu cychwyn gan yr un math o "hen wyneb". Arweiniodd hyn at wneud y rhaglen yn fwy agored.

14

https://enrd.ec.europa.eu/leader-clld/leader-toolkit/leaderclld-explained_en

Ar gychwyn cyfnod 2014-2020 y rhaglen, roedd y Grŵp Gweithredu Lleol yn cynnwys yr aelodau canlynol, gyda'r rhain yn cynrychioli'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol:

Cyhoeddus

Datblygu Economaidd, Cyngor Sir Ceredigion

Prifysgol Aberystwyth (IBERS)

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Cyfoeth Naturiol Cymru

Preifat

Antur Teifi

Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr

Undeb Amaethwyr Cymru

Menter a Busnes

Ardal Twf Lleol Dyffryn Teifi

Cantref

Twristiaeth Ceredigion Tourism

Cymdeithas Sifil

Ecodyfi ar ran Partneriaeth Biosffer Dyfi

Whilen y Porthmyn/Drovers Wheel

RAY Ceredigion

Menter Aberteifi

Clybiau Ffermwyr Ifanc

Llandysul & Pont Tyweli Ymlaen Cyf

CAVO

Cwmni Theatr Arad Goch

Cwmni Buddsoddi Cymunedol Mynyddoedd Cambria

Grwp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Bae Aberteifi
(F.L.A.G.)

Roedd rhanddeiliaid a chydgysylltwyr prosiectau y siaradwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad yn nodi'r Grŵp Gweithredu Lleol fel un o gryfderau'r rhaglen. Roedd aelodau'r Grŵp yn weithgar wrth ddatblygu ac arwain prosiectau. Cafodd Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi ei ddisgrifio fel fforwm gwych i drafod cymunedau Ceredigion yn agored, a llwyfan gwych i annog pobl i ddod ymlaen gyda syniadau.

Roedd rhywfaint o feirniadaeth gan gydgyssylltydd un prosiect a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi y gellid bod wedi defnyddio'r Grŵp Gweithredu Lleol fel mwy o ffynhonnell syniadau ar gyfer arwain prosiectau. Roedd y rhanddeiliad yn nodi bod cyfyngiadau ar amser aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol, ond pe bai'r Grŵp wedi cael ei annog i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros gyfeiriad prosiectau, yna gallai mwy o syniadau fod wedi llifo o'r Grŵp.

Tîm Gweinyddu

Roedd rhanddeiliaid a chydgysylltwyr prosiectau y siaradwyd â hwy yn uchel iawn eu clod o dîm gweinyddu Cynnal y Cardi, gan ganmol eu hymroddiad i weledigaeth LEADER. Thema gyffredin oedd eu brwdfrydedd eiddgar gyda phrosiectau, gan hyd yn oed fynychu nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan amrywiol brosiectau. Roedd y presenoldeb ar lawr gwlad yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan nifer o gydgyssylltwyr prosiectau.

Roedd y tîm gweinyddu yn darparu gwasanaethau animeiddio gwerthfawr i nifer o'r prosiectau a gyfwelwyd, gan gynorthwyo mewn gweithgareddau fel ymgynghoriadau cymunedol, a chefnogi cydgysylltwyr prosiectau gyda thasgau gweinyddol.

Canmolwyd hefyd eu parodrwydd i gydgyhyrchu a chyfrannu, gyda nifer o gydgyssylltwyr prosiectau wedi gwerthfawrogi eu cyfraniad a'u canllawiau ar gyflawni prosiectau.

Cafodd newidiadau staff ymysg swyddogion a gweinyddwyr Cyngor Sir Ceredigion eu nodi gan ddau gydgyssylltydd prosiect fel rhywbeth a achosodd

rywfaint o darfu ac anghyfleustra, ond ni nodwyd hyn fel mater arbennig o ddifrifol. Roedd rhanddeiliad ac aelod o'r Grŵp Gweithredu Lleol wedi nodi mai un o gryfderau rhaglen 2014-2020 oedd bod y tîm gweinyddu hefyd wedi bod yn ymwneud â LEADER ers cyfnod blaenorol y rhaglen yn 2007-2013, a oedd wedi arwain at ddyfnder llesol o brofiad a gwybodaeth ymysg y staff.

Roedd rhanddeiliad yn nodi bod tîm Cynnal y Cardi wedi tyfu'n sylweddol mewn hyder erbyn cyfnod 2014-2020 y rhaglen. Gan adeiladu ar y profiad roeddent wedi ei ddatblygu yn ystod y rhaglen gyllido flaenorol, roeddent yn cael eu disgrifio fel tîm mwy hyderus yn yr hyn y gallent ei gyflawni.

Roedd rhywfaint o feirniadu ar y fiwrocratiaeth a'r gwaith papur a oedd yn dod gyda chyllid LEADER. Un pryder penodol a godwyd oedd bod baich blinderus o waith papur yn ofynnol yn sgil gorfod ailgynllunio elfennau o'r prosiect oherwydd Covid-19. Gwnaed y pwynt fod y swm o waith papur gofynnol yn anaddas gan fod y cydgysylltwyr prosiectau eisoes yn wynebu mwy o ofynion ar eu hamser yn ymdrin â goblygiadau Covid-19.

Beirniadaeth fach arall gan un cynrychiolydd prosiect oedd bod y cymorth gweinyddol a ddarparwyd gan dîm Cynnal y Cardi yn canolbwyntio'n ormodol ar gael sefydliadau i ddiwallu anghenion tystiolaeth, yn hytrach na darparu hyfforddiant mwy sylweddol wrth weinyddu prosiect. Deellir bod gofynion tystiolaethu yn cael eu gorfodi ar weinyddwyr LEADER fel rhan o'r Rhaglen Datblygu Gwledig, ond mae canolbwyntio'n rhy gul ar gasglu tystiolaeth yn arwain at gollu cyfleoedd am feithrin chynyddu gallu yn ehangach.

Oherwydd yr amrywiaeth helaeth o brosiectau a gafodd eu cyllido gan Cynnal y Cardi, a natur llawr-gwlad ac arbrofol llawer o'r prosiectau, mae timau cyflawni prosiectau wedi bod ag anghenion gwahanol o ran graddau o gymorth. Cafodd rhai prosiectau eu cyflawni gan unigolion neu grwpiau heb ddim, neu fawr ddim, profiad blaenorol o redeg prosiectau a gyllidir â grantiau, gyda llawer yn gorfod dysgu wrth iddynt roi'r prosiect ar waith. Gwerth dull LEADER yw bod grwpiau ac unigolion heb fawr o brofiad blaenorol yn gallu cael at gymorth cyllid i weithredu syniadau mwy mentrus, ond sy'n aml yn

arloesol. Fodd bynnag, mae hyn yn rhoi gofynion ychwanegol ar weinyddwyr rhaglenni LEADER i gydweithio'n agosach â thimau prosiectau dibrofiad er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r gwaith yn effeithiol.

Cynnydd a wnaed tuag at dargedau

Mae'r tabl isod yn cynnwys data ar berfformiad rhaglen 2014-2020 LEADER Ceredigion o gymharu â thargedau y cytunwyd arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Tabl 3.1: Perfformiad tuag ddangosyddion targedau

Dangosydd Perfformiad	Targed	Cyflawnwyd hyd yma
Nifer o swyddi a grewyd	1.5	1.5
Nifer o astudiaethau dichonoldeb	4	2*
Nifer o rwydweithiau a sefydlwyd	8	2
Nifer o weithgareddau peilot a gyflawnwyd /a gefnogwyd	25	14
Nifer o ganolfannau cymunedol	0	0
Nifer o swyddi a ddiogelwyd	2	0.8
Nifer o gamau lledaenu gwybodaeth / hyrwyddo	122	183
Nifer o randdeiliaid yr ymwnaed â hwy	650	1,292
Nifer o gyfranogwyr a gefnogwyd	750	2,166

Ffynhonnell: Tîm Gweithredu Cynnal y Cardi, Mai 2021.

*Cynhyrchwyd naw astudiaeth ddichonoldeb / cwmpasu pellach nad ydynt o angenrheidrwydd yn cyrraedd y gofynion gan Lywodraeth Cymru.

Tabl 3.2: Perfformiad tuag ddangosyddion targedau: Prosiectau Cydweithio

Dangosydd Perfformiad	Targed	Cyflawnwyd hyd yma
-----------------------	--------	--------------------

Nifer o rwydweithiau a sefydlwyd	2	0
Nifer o gamau lledaenu gwybodaeth	10	19
Nifer o randdeiliaid yr ymwnaed â hwy	40	114
Nifer o gyfranogwyr a gefnogwyd	60	98

Ffynhonnell: Tîm Gweithredu Cynnal y Cardi, Mai 2021

Yng nghyfnod 2014-2020 y Rhaglen, mae Cynnal y Cardi wedi perfformio'n dda ochr yn ochr â'r dangosyddion targedau, er ei bod yn bwysig nodi nad yw'r allbynnau a gofnodir uchod yn llwyr gyfleu llwyddiannau ac effaith rhaglen fel Cynnal y Cardi.

Er bod rhai targedau nad ydynt wedi eu cyrraedd hyd yma, mae'r rhain mewn rhai achosion lle nad yw gweithgareddau Cynnal y Cardi yn cyrraedd gofynion canllawiau dangosyddion a bennir gan Lwydoraeth Cymru. Er enghraifft, mae Cynnal y Cardi wedi hwyluso nifer o rwydweithiau anffurfiol nad ydynt yn cyrraedd y ffurfioldeb sy'n ofynnol er mwyn bodloni'r dangosydd *nifer o rwydweithiau a sefydlwyd*.

Yn yr un modd, yn ogystal â'r ddwy astudiaeth ddichonoldeb a gofnodwyd yn ôl dangosydd nifer yr astudiaethau dichonoldeb, mae naw pellach wedi cael eu datblygu trwy Cynnal y Cardi nad ydynt yn cyrraedd y gofynion gan Lywodraeth Cymru.

Bydd allbynnau pellach yn cael eu cofnodi yng nghanau terfynol Cynnal y Cardi yn 2023.

Gweithredu Rhaglen LEADER 2007-2013 Ceredigion

Arweiniodd y cynnig ar gyfer gweithredu Echel 3 a 4 o RDP 2007-2013, a gyflwynwyd yn 2006 gan Bartneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion, at sefydlu rhaglen LEADER yng Ngheredigion ar gyfer cyfnod 2007-2013 y rhaglen. Roedd Rhaglen LEADER 2007-2013 yng Nghymru wedi ei rhannu'n ddau gyfnod, gyda Chynllun Busnes 1, a oedd yn rhedeg o 2007 hyd 2011, a Chynllun Busnes 2, a oedd yn rhedeg o 2011 hyd 2014.

Cafodd rhaglen LEADER ei datblygu yng nghyd-destun Strategaeth Datblygu Lleol, a ysgrifennwyd yn bennaf gan Gyngor Sir Ceredigion gyda mewnbwn gan y Grŵp Gweithredu Lleol. Roedd y Strategaeth yn gosod y cyd-destun ar gyfer gweithredu Echel 3 a 4, a chafodd ei diweddarau ar gyfer Cynllun Busnes 2, a oedd yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 2011 a 2014.

Datblygwyd y Strategaeth Datblygu Lleol i ymdrin â chwech o faterion strategol:

- Annog amrywiaeth helaethach o gyfleoedd gwaith sy'n talu'n well;
- Camau i godi cyfraddau gweithgarwch economaidd;
- Annog gwasanaethau sy'n cefnogi'r economi wledig ehangach;
- Cydgysylltu datblygu seilwaith a gwasanaethau newydd i gefnogi twf busnesau, gan gynnwys twristiaeth a gweithgareddau crefftau;
- Gwella amgylchedd ffisegol aneddiadau a gwarchod y dreftadaeth wledig a naturiol er mwyn cefnogi a diogelu busnesau lleol;
- Cefnogi cydlyniant cymunedol trwy sicrhau bod bob un o drigolion Ceredigion yn cael cyfle cyfartal i gael at wasanaethau, manteisio'n llawn i'r eithaf ar eu doniau a chyfrannu at wella perfformiad economaidd Ceredigion a chyfrannu at fywyd cymdeithasol yn y gymuned.

Fe wnaeth Partneriaeth Adfywio Economaidd Ceredigion ddatblygu'r Strategaeth Datblygu Lleol ar sail pedwar o amcanion a oedd yn targedu anghenion allweddol yn y sir. Y rhain oedd:

- Amcan Strategol 1: Ceredigion fel cymuned ddeniadol i fuddsoddi a gweithio ynddi;
- Amcan Strategol 2: Gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf;
- Amcan Strategol 3: Creu mwy o swyddi a'r rheini'n swyddi gwell;
- Amcan Strategol 4: Canolbwyntio adfywio.

Cafodd y Strategaeth Datblygu Lleol ei hadnewyddu ar gyfer cyfnod Cynllun Busnes 2 yn 2009, a daeth hon y Strategaeth roedd prosiectau Echel 4 yn gweithio iddi am weddill y cyfnod o 2011 hyd 2014. Roedd dwy elfen i Gynllun Busnes 2, prosiect Gwella Ansawdd Bywyd Cynnal y Cardi, ac iddo'r nod o wella ansawdd bywyd yng Ngheredigion, a GwarchodNi, prosiect cydweithio gyda Gwynedd a Powys a oedd yn archwilio atebion arloesol ar gyfer gofal plant.

Cynllun Busnes 1: Rhaglen LEADER Cyfnod 2007-2013

Cyflawnwyd amrywiaeth helaeth o brosiectau fel rhan o gyfnod cyllido 2007-2013. Bu trydydd partïon yn ymwneud yn helaeth â Chynllun Busnes 1, yn cynnig cynlluniau a dyfarnwyd contractau iddynt i gyflawni prosiectau a gyllidwyd trwy Cynnal y Cardi. Roedd y prosiectau'n cynnwys Gwyliau i Geffylau, prosiect i annog twristiaid i ddod â'u ceffylau gyda hwy ar wyliau i Geredigion, Clystyrau Twristiaeth Ceredigion, prosiect i ddatblygu clystyrau twristiaeth cynaliadwy'n ymwneud â themâu penodol, a Transition Llambod, prosiect i weithredu'r Fenter Trawsnewid Trefi yn Llanbedr Pont Steffan.

Gwelir isod astudiaeth achos o brosiect Cyswllt Amaeth, a gyflwynwyd gan Menter a Busnes fel rhan o Raglen LEADER 2007-2013 Cynnal y Cardi.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 1

Cyswllt Amaeth

Cynllun Busnes 1, Rhaglen LEADER Cyfnod 2007-2013

Trosolwg

Roedd Cyswllt Amaeth yn brosiect a gyllidwyd gan LEADER Ceredigion o gyfnod Cynllun Busnes 1 RDP 2007-2013. Cafodd ei ddatblygu a'i weithredu gan Menter a Busnes, a oedd â chryn lawer o brofiad o weithio gyda ffermwyr yng Ngheredigion.



Prosiect oedd Cyswllt Amaeth i helpu ffermwyr Ceredigion i weithredu syniadau arloesol a ddatblygwyd gan y ffermwyr eu hunain. Bu'n gweithio gyda chyfanswm o bum clwstwr ar gyfer datblygu pum syniad gwahanol.

Cefndir

Y sail resymegol y tu ôl i'r prosiect oedd bod llawer o syniadau o fewn y sector gwledig, ond bod angen help er mwyn gwireddu'r syniadau hyn. Byddai Cyswllt Amaeth yn darparu'r cymorth oedd ei angen i weld syniadau'n cael eu gweithredu. Cynhaliwyd cyfarfodydd ledled Ceredigion gyda ffermwyr a phartïon â diddordeb, gyda syniadau'n codi o'r cyfarfodydd hyn.

Roedd y clystyrau'n cynnwys prosiect cydweithio rhwng ffermwyr i ddod at ei gilydd i fargeinio ar y cyd am brisiau gwell am fwyd organig i dda byw. Datblygwyd un arall gyda ffermwyr ym Mhontarfynach i archwilio dichonadwyedd cynlluniau trydan hydro ar eu tir.

Datblygwyd clwstwr ar y cyd â lladd-dy Dunbia yn Llanybydder. Fe wnaeth Cyswllt Amaeth gydgysylltu darparu gliniaduron i ffermwyr yn 2008 er mwyn

gwella eu sgiliau digidol, yn bennaf i hyfforddi ffermwyr mewn defnyddio systemau a oedd wedi eu cysylltu â'r lladd-dy.

Effaith a Gwaddol Prosiect: Clwstwr y Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig

Cafodd un clwstwr o'r fath ei weithredu gan dri ffermwr o Dalybont, a ofynnodd am gymorth i weithio gyda'r Gymdeithas Gwartheg Duon Cymreig i ddatblygu brîd y Gwartheg Duon Cymreig. Penderfynodd y ffermwyr, a arferai gyfarfod unwaith y flwyddyn fel rhan o'r gymdeithas, y dylent wneud rhywbeth mwy rhagweithiol i ddatblygu'r brîd. Gyda chymorth gan Cyswllt Amaeth, buont yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau a ysbrydolwyd gan yr hyn a wnaed mewn lleoedd eraill i ddatblygu bridiau gwartheg. Ar ôl gosod achos at ei gilydd gyda help gan Cyswllt Amaeth, fe wnaeth y clwstwr sicrhau cyllid am swyddog maes i asesu gwartheg, gan ganolbwyntio ar famau teirw, er mwyn gwella'r brîd. Sefydlwyd cofrestrfa ar y we er mwyn cofnodi data y gallai aelodau ei ddefnyddio. Mae'r gofrestrfa yn dal i gael ei defnyddio heddiw.

Fe wnaeth y clwstwr sicrhau cyllid hefyd trwy gais ar y cyd ag IBERS i ddatblygu canolfan perfformiad teirw. Dros dair blynedd, aseswyd ac astudiwyd 10 o deirw er mwyn adnabod stoc ac iddo eneteg dda.

Dywedodd cynrychiolydd o'r clwstwr ei fod wedi "edrych ar wneud y pethau hyn, ond doedd gen i mo'r modd i'w cyflawni ... felly rhoddodd Cyswllt Amaeth y cyfle iddynt archwilio a gwneud hyn – a fydden nhw ddim wedi gwneud hyn hebddyn nhw."

Roedd Cyswllt Amaeth yn ymgorffori egwyddorion LEADER trwy ganolbwyntio ar ddatblygu syniadau roedd ar ffermwyr eu hunain eisiau eu dilyn. Roedd y cyfarfodydd agored yn cynnig fforwm i'r syniadau gael eu codi. Roedd un o hwyluswyr Cyswllt Amaeth yn nodi bod ffermwyr yn aml "yn cael pethau wedi eu gorfodi arnyn nhw", a bod y prosiect hwn yn ffordd gwbl wahanol o weithredu o gymharu â'r hyn roedden nhw wedi arfer ag ef. Cymorth anariannol oedd yr hyn a ddarparwyd gan Cyswllt Amaeth. Byddai Menter a Busnes yn cyflawni'r gwaith cefndir i wireddu'r syniadau, gan drafod gyda'r ffermwyr i ddatblygu'r clystyrau roedd arnynt eisiau eu gweld yn dwyn ffrwyth.

Cynllun Busnes Plan 2: Rhaglen LEADER Cyfnod 2007-2013

- 1.1 Cafodd Cynllun Busnes 2, a fu'n rhedeg o 2011 hyd 2013, ei weithredu'n wahanol gan Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi. Yn lle canolbwyntio ar gael cyrff allanol i gyflawni prosiectau LEADER, penderfynwyd y byddai tîm Cynnal y Cardi o fewn Cyngor Sir Ceredigion a'r Grŵp Gweithredu Lleol yn arwain y gwaith, gyda swyddogion yn cael eu dynodi tuag at themâu penodol. Roedd hyn yn golygu y byddai rheolwyr prosiectau a grwpiau cymunedol a oedd yn arwain prosiectau a gyllidwyd gan LEADER yn cydgysylltu'n uniongyrchol gyda Cynnal y Cardi.
- 1.2 Gwelodd cyfnod Cynllun Busnes 2 dros 30 o weithgareddau prosiect yn cael eu cefnogi, gyda llawer o brosiectau cymunedol yn cael eu datblygu trwy'r cymorth a ddarparwyd. Yn ogystal, gwelodd y cyfnod hwn Gynllun Bwrsariaeth Ysgol Fenter y Cardi ar waith, a gefnogodd 53 o fusnesau unigol gyda chymorth cychwyn busnes (gweler astudiaeth achos 2).
- 1.3 Roedd y prosiect yn rhychwantu'r Amcanion a Themâu Strategol a bennir yn y Strategaeth Datblygu Lleol, ac roedd yn ymwneud â chyllid a chymorth i brosiectau fel datblygu Gŵyl Fwyd Môr i'r Tir yn Aberystwyth, adeiladu lle chwarae i blant yn Aberarth, ac adnewyddu Neuadd y Farchnad yn Aberystwyth (gweler astudiaeth achos 4).

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 2

Ysgol Fenter y Cardi

Cynllun Busnes 2, Rhaglen LEADER Cyfnod 2007-2013

Cefndir

Un o gynlluniau Cynnal y Cardi oedd Ysgol Fenter y Cardi a oedd yn darparu bwrsariaethau i drigolion Ceredigion a oedd â dyhead i gychwyn busnes newydd neu fenter gymunedol. Bu ar waith yn ystod Cyfnod Cynllun Busnes 2 o Gyfnod Rhaglen 2007-2013 LEADER Ceredigion, gan weithio gyda chyfanswm o 53 o fusnesau i ddarparu cymorth er mwyn tyfu eu huchelgeisiau busnes.



Roedd y fwrariaeth ar gael i helpu pobl i wireddu eu syniadau trwy ddarparu cyngor arbenigol, offer, neu gymorth neu adnoddau eraill angenrheidiol. Roedd hyd at £1000 ar gael i ymgeiswyr o grwpiau targed penodol, megis pobl ifanc (11-30), Cymunedau Cymraeg, y tan-gyflogedig, a'r rheini nad oedd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Gwaddol y Prosiect

Siaradwyd â phedwar o dderbynwyr cyllid Ysgol y Fenter fel rhan o'r gwerthusiad hwn. O'r pedwar, roedd dau o'r unigolion yn dal i redeg y busnesau yr helpodd Ysgol Fenter y Cardi eu datblygu, tra bod y ddau arall wedi rhedeg eu busnesau am gyfnod o sawl blwyddyn cyn naill ai symud swyddi neu ymddeol.

Gwasanaeth garddio a busnes lluniau priodas yw'r ddau fusnes sy'n parhau. Derbyniodd y ddau y fwrariaeth er mwyn prynu'r offer angenrheidiol i sefydlu eu busnesau. Roedd perchennog y busnes tynnu lluniau priodas wedi derbyn y fwrariaeth i brynu gwell offer i'w galluogi i gyflawni ei gwaith yn well. Mewn cyfweliad, meddai:

“Pan wnes i gychwyn fy musnes ro’n i’n gweithio ar laptop bach iawn, ac allwn i ddim golygu lluniau’n iawn oherwydd doedd gen i mo’r offer. Felly fe wnes i gais am grant gydag Ysgol Fenter y



Cardi ac fe wnaethon nhw’n garedig iawn roi’r arian imi allu prynu Apple Mac mawr safonol a oedd yn wych oherwydd roedd yn fy ngalluogi i olygu fy lluniau fel y mynnwn, ac roedd yn help gwirioneddol imi symud ymlaen gyda fy musnes. Pan ddaw’r briodferch a’r priodfab i weld rhai o’r lluniau maen nhw’n fawr ac yn hardd ac mae’r lliwiau’n hyfryd.”

Roedd perchennog y busnes garddio, ar adeg y gwnaeth y cais, yn fam sengl yn chwilio am incwm, a heb ddim cyllid i brynu’r offer cychwynnol roedd arni ei angen i sefydlu’r busnes. Roedd Ysgol Fenter y Cardi felly yn allweddol wrth ei helpu i sefydlu’r busnes. Mewn cyfweiliad, meddai:

“Doedd gen i ddim cronfa o arian wrth gefn, dim teulu i helpu ei ariannu, a gallu prynu peiriannau o ansawdd da, gallu rhedeg busnes, a gwneud y gwaith ro’n i’n ymgymryd ag ef, felly na, allwn i ddim bod wedi’i wneud hebddyn nhw [Ysgol Fenter y Cardi].”

Roedd un o’r dderbynwyr y siaradwyd â hwy wedi gweithredu busnes teithiau beic, ac wedi derbyn cyllid i ddilyn hyfforddiant er mwyn gallu arwain teithiau beic. Roedd y busnes yn llwyddiannus am beth amser cyn i newid swydd olygu llai o amser i redeg y busnes. Roedd yr holl dderbynwyr y siaradwyd â hwy yn dweud bod y fwsariaeth wedi bod yn amhrisiadwy wrth sefydlu’r busnes, gyda thri o’r pedwar yn ychwanegu na fyddent wedi gallu dilyn eu busnesau heb y cymorth a dderbyniwyd.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 3

Prosiect “Harddwch y Gwenyn” – Cymdeithas Gwenynwyr Llambed

Cynllun Busnes 2, Rhaglen LEADER Cyfnod 2007-2013

Trosolwg

Derbyniodd Cymdeithas Gwenynwyr Llambed gyllid gan Cynnal y Cardi yn ystod cyfnod Cynllun Busnes 2 o raglen LEADER 2007-2013 yng Ngheredigion. Roedd y Gymdeithas, a gaiff ei rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr, yn bod ers dros 40 mlynedd, a daeth at Cynnal y Cardi am gymorth i sefydlu gwenynfa, cwch arddangos y gellid ei gludo i sioeau a digwyddiadau, a phrynu offer diogelwch y gellir ei ddefnyddio i hyfforddi aelodau neu ar gyfer digwyddiadau addysgiadol. Roedd yr offer yn cynnwys prynu echdynnwr mêl i aelodau ei ddefnyddio, eitem sy'n ddarn drud o offer i ddechreuwyr.



Gwaddol ac Effaith y Prosiect

Mae'r wenyntfa wedi bod yn hanfodol i alluogi'r Gymdeithas i ddysgu aelodau i gyrraedd safon uchel o hwsmonaeth gwenyn, a chynnig mentora a chanllawiau i'r rheini sy'n cychwyn neu'n datblygu eu sgiliau cadw gwenyn. Fe wnaeth y cyllid a'r offer hefyd alluogi'r Gymdeithas i gynnal dyddiau blasu i'r

rheini a oedd â diddordeb mewn dysgu mwy am hwsmonaeth gwenyn. Fel rhan o'r allgyrraedd ehangach, fe wnaeth y cyllid alluogi'r Gymdeithas i




ddatblygu logo newydd, gwefan ddwyieithog, a thafenni gwybodaeth.

Roedd y Gymdeithas, fel sefydliad dielw, wedi ei chael yn anodd symud ymlaen gyda darparu hyfforddiant ymarferol i'w dechreuwyr. Roedd eu hyfforddiant, yn ogystal â'u presenoldeb mewn sioeau a digwyddiadau, yn dibynnu'n gyfan gwbl ar aelodau'n gwirfoddoli neu'n rhoi eu hoffer eu hunain ar fenthyg. Mae cyllid Cynnal y Cardi wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i allu'r Gymdeithas i estyn allan a

hyfforddi ei haelodau. Mewn cyfweiliad ar gyfer y gwerthusiad hwn, dywedodd cynrychiolydd na fydden nhw wedi gallu fforddio'r hyn sydd ganddynt nawr heb y cyllid. Yn ogystal, roeddent yn nodi bod yr wenynt a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi wedi dod yn ganolbwynt cymdeithasol i'r aelodau, yn bwynt canolog i'r Gymdeithas, lle gallai aelodau ddod i gyfarfod.

Mae Cymdeithas Gwenynwyr Llambod, ers y cyllid, wedi darparu cyrsiau hyfforddi chwe-wythnos mewn cadw gwenyn, ac wedi gweld nifer y dilynwyr yn tyfu'n sylweddol. Er bod Covid-19 wedi tarfu ar bosibiliadau hyfforddi dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Gymdeithas yn dal i fod â thua 30 o bobl ar hyn o bryd sydd wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant unwaith y bydd amodau'n gwella. Mae'r Gymdeithas yn obeithiol y bydd diddordeb yn parhau gan aelodau newydd.



Am ddarganfod rhagor am wenynt?

Sesiwn Blasu - 12 Ebrill, 2014

Cwrs i Ddechreuwyr/Beginners Course — 5 Sesiwn

Yn dechrau ar 27 Ebrill, 2014

Am ragor o wybodaeth am gyrsiau a sesiynau blasu

neu i gofrestri i fynychu'r uchod

Cysylltwch â Gordon Lumby drwy ffonio:-

01570 480571

Drwy e-bost:- secretary@lampeterbeekeepersassociation.co.uk

www.lampeterbeekeepersassociation.co.uk



Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 4

Unedau Deori Neuadd y Farchnad Aberystwyth

Cynllun Busnes 2, Rhaglen LEADER Cyfnod 2007-2013

Trosolwg

Fel rhan o Gynllun Busnes 2 Rhaglen LEADER Ceredigion 2007-2013, derbyniodd Neuadd y Farchnad Aberystwyth gyllid gan Cynnal y Cardi i helpu wrth adfywio gweithgarwch economaidd



trwy aildatblygu neuadd hanesyddol Neuadd y Farchnad. Nod y prosiect oedd denu mwy o ymwelwyr i'r Neuadd y Farchnad, a helpu entrepreneuriaid i ddatblygu busnesau wrth ddefnyddio'r lle. Fel rhan o'r prosiect, crewyd pedwar o leoedd ar gyfer deori busnesau. Roedd y rhain ar gael i unigolion a oedd â'u bryd ar sefydlu busnesau manwerthu ac yn cynnig cyfle i brofi syniad.

Gwaddol ac Effaith y Prosiect

Mae amrywiaeth helaeth o fusnesau unigol yn gwerthu amrywiaeth o gynhyrchion wedi cymryd meddiant o'r unedau deori. Roedd y deorfeydd yn cael eu darparu am gyfnod o flwyddyn, ac roeddent am ddim am y chwe mis cyntaf, gyda gweddill yr amser yn gofyn am dâl rhent bychan yn unig.

Roedd cyn-ddeiliaid y deorfeydd y siaradwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad yn sôn yn ffafriol am y fenter, gydag un yn disgrifio'r profiad fel sefyllfa ddefrydol a oedd yn gweithio'n wych, gan nad oedd arnynt eisiau ymrwymo i fusnes heb wybod a fyddai'n llwyddiannus. Roedd y deorfeydd yn rhoi iddynt yr wybodaeth fod ganddynt sail o gwsmeriaid yn y dref. Dywedodd unigolyn y siaradwyd ag ef na fyddent fyth wedi cychwyn eu busnes oni bai iddynt ddigwydd clywed am y cyfle. Roeddent wedi bod yn chwilio am waith, ond wedyn penderfynu rhoi cynnig ar syniad am fusnes.



Mae dau o'r tri unigolyn y siaradwyd â hwy wedi symud eu busnesau ers hynny i brif adeilad Neuadd y Farchnad, gydag un, gwerthwr cynhyrchion cynaliadwy, hefyd â'i fryd ar agor siop yn nhref Aberystwyth. I'r tri busnes y siaradwyd â hwy, mae'r

unedau deori wedi arwain at ddatblygu un rôl lawn-amser ac un rôl ran-amser sy'n addas ar gyfer angen yr unigolyn am hyblygrwydd yn sgil gofynion gofal plant.

Yn ogystal â chreu nifer o fusnesau bach a swyddi, mae'r prosiect Unedau Deori wedi darparu cyfleusterau gwerthfawr i Aberystwyth y gellir parhau i'w defnyddio yn y dyfodol i annog datblygu busnesau yn Aberystwyth.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 5

Tregaroc

Cynllun Busnes 2, Rhaglen LEADER Cyfnod 2007-2013

Trosolwg

Gŵyl gerddorol Cymraeg yw Tregaroc sy'n cael ei chynnal yn Nhregaron ar y trydydd dydd Sadwrn ym mis Mai bob blwyddyn. Cynhaliwyd y Tregaroc cyntaf yn 2014, a gwerthwyd yr holl docynnau o fewn dau ddiwrnod. Fe'i cychwynnwyd gan bum menyw leol a oedd yn byw yn Nhregaron, sydd bellach wedi dod yn dŷm o 6. Roedd y grŵp wedi'i ffurfio o unigolion o amrywiol gefndiroedd, gan gynnwys trefnydd Ffermwyr Ifanc, athrawes, gweithiwr banc, gweithiwr theatr a swyddog grantiau.

Cefndir

Roedd y trefnwyr i gyd wedi bod yn bryderus bod Tregaron yn dioddef dirywiad graddol a chyson. Roedd Tregaron yn y gorffennol wedi bod yn ganolfan i'r ardal leol, yn cael ei ddisgrifio fel "y lle i fod" mewn ardal wledig iawn. Fodd bynnag, roedd llyfrgell y dref yn cau, roedd banciau yn y dref yn cau, ac roedd trafodaethau ynghylch cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Penderfynodd y trefnwyr gynnal digwyddiad, i ddenu pobl i'r dref, ac er mwyn pobl Tregaron. Penderfynwyd ar ŵyl gerddorol, ac yn dilyn ymarferiad trafod gyda phobl yn y dref, penderfynwyd symud ymlaen gyda Tregaroc. Y bwriad, yn ôl un o gynrychiolwyr Tregaroc y siaradwyd â hwy, oedd "creu cyffro a thipyn o hwyl, a hybu'r Gymraeg, yn ogystal â hysbysebu'r dref."



17th MAI 2014
17th MAY 2014
DYDD SADWRN ~ SATURDAY
3PM TAN HWYR ~ UNTIL LATE

Tregaroc
Tre fach a Sŵn mawr

Gŵyl Gerddoriaeth Gymraeg 1st Tregaron
Tregaron's 1st Welsh Music Festival

3:00 Talbot Gwibdaith Hen Frân	7:30 Clwb Rygbi Ian Rowlands
4:30 Y Llew Coch Paul Dark	9:00 Pabell y Clwb Rygbi Ifan Jones Evans Gwibdaith Hen Frân
6:00 Clwb Bowlio Meinir Gwilym	Newshan Sŵnami

£10 TOCYN TICKET
Prynwch eich tocyn heddiw
Buy your ticket today

www.tregaroc.co.uk
[@tregaroc | www.facebook.com/tregaroc](https://www.facebook.com/tregaroc)



Effaith y Prosiect

Mae Tregaroc yn cynnwys prif lwyfan mewn pabell yng nghanol y dref, gyda pherfformiadau am ddim yn digwydd mewn tafarndai o gwmpas y dref. Mae tocynnau yn galluogi tua 500 o bobl i weld y perfformiadau yn y babell, ond mae tua 1000 o bobl yn dod i'r dref ar gyfer yr ŵyl bob blwyddyn. Mae cydlynu da rhwng yr ŵyl a'r dref, gyda busnesau gan gynnwys siopau cludfwyd, bwyd a thrin gwallt yn cynnig bargeinion ar y diwrnod, a nwyddau ar gyfer yr ŵyl yn cael eu gwerthu mewn siopau lleol.

Mae trefnwyr Tregaroc hefyd yn cynnal digwyddiadau rhad ac am ddim drwy gydol y flwyddyn, gan lwyfannu gigs Cymraeg i bobl Tregaron mewn tafarndai a chlybiau chwaraeon lleol.

Mae Tregaroc yn gydnaws iawn ag egwyddorion LEADER. Caiff ei drefnu gan bobl leol er mwyn rhoi hwb i bobl leol a'r economi leol, gan hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'n cynnwys gwirfoddolwyr lleol, gyda'r trefnwyr yn gwirfoddoli eu hamser bob blwyddyn, a



phobl leol yn gwirfoddoli i helpu ar y diwrnod. Mae Tregaroc yn cynnig astudiaeth achos werthfawr o weithredu o'r gwaelod i fyny dan arweiniad y gymuned i hyrwyddo datblygiad economaidd lleol a chefnogaeth i'r iaith a'r diwylliant Cymraeg. Mae'r prif drefnydd ers hynny wedi ymddangos ar lawer o baneli yn sôn am lwyddiant Tregaroc.

Mae Tregaroc yn fenter gynaliadwy sy'n parhau. Fe wnaeth y cymorth cyllid cychwynnol gan Cynnal y Cardi roi'r hyder i drefnwyr gymryd risg wrth drefnu digwyddiad mawr i'r dref. Bob blwyddyn mae'r ŵyl wedi digwydd, mae gwerthiannau tocynnau wedi eu galluogi i glirio'u costau. Mae'r cyllid cychwynnol gan Cynnal y Cardi wedi galluogi'r trefnwyr i ddefnyddio arian wrth gefn bob blwyddyn, gan sicrhau bod cyllid bob blwyddyn i rentu'r babel ac archebu'r bandiau.



Heb gyllid gan Cynnal y Cardi, ni fyddai'r trefnwyr wedi gallu trefnu Tregaroc i'r raddfa mae wedi'i gyrraedd. Er bod y posibilrwydd wedi bod o wneud rhywbeth llai, mae'n debygol y byddai wedi cymryd blynyddoedd i adeiladu

Tregaroc o ddim byd i'r wyl yr ydyw hi heddiw. Heb y chwistrelliad cychwynol o gymorth i dreialu'r digwyddiad a ddarparwyd gan Cynnal y Cardi, byddai pob blwyddyn wedi teimlo fel gambel.

Mae Tregaroc wedi bod yn llwyddiant gwych a pharhaol, sy'n ychwanegu bywyd at dref a oedd wedi wynebu teimlad o ddirywiad. Mae'r digwyddiad wedi dod â llawer o gyhoeddusrwydd i'r dref. Ar ôl mynd ati i "greu cyffro", roedd y cynrychiolydd y siaradwyd â hi yn sicr bod Tregaroc wedi helpu i ddod â'r Eisteddfod Genedlaethol i'r dref. Mae Tregaroc yn dod â llawer o bobl i'r dref o ardaloedd cyfagos ac ymhellach i ffwrdd, gyda llety gwyliau a gwestyau yn llenwi'n gyflym o gwmpas adeg yr wyl.

Gweithredu Rhaglen LEADER 2014-2020 Ceredigion

Roedd pum thema i'r Rhaglen LEADER o fewn Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 LEADER yng Nghymru. Y bwriad oedd i'r rhain weithredu fel fframwaith i Awdurdodau Lleol ac roeddent yn ymwneud â meysydd allweddol sy'n berthnasol i'r Gymru wledig. Y rhain oedd:

- Ychwanegu gwerth at hunaniaeth leol, adnoddau diwylliannol a naturiol
- Hwyluso datblygu cyn-fasnachol, partneriaethau busnes a chadwyni cyflenwi byr
- Archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau lleol anstatudol
- Ynni adnewyddadwy ar lefel Cymuned
- Manteisio ar dechnoleg ddigidol.

Ar gyfer cyfnod 2014-2020 y rhaglen, datblygwyd Strategaeth Datblygu Lleol wedi ei diweddarau i Geredigion. Mae'r Strategaeth Datblygu Lleol yn dilyn pum thema, sy'n gyffredinol gydnaws â'r pum thema LEADER ar lefel genedlaethol a amlinellir uchod, ond hefyd yn canolbwyntio ar anghenion sy'n benodol i Geredigion:

- Manteisio ar yr Amgylchedd a'r Tirwedd Naturiol
- Adeiladu Economi Seiliedig ar Wybodaeth
- Manteisio i'r Eithaf ar ein Diwylliant a'n Treftadaeth
- Ychwanegu Gwerth at ein Cynhyrchion Sylfaenol
- Datblygu ein Pobl a'n Sefydliadau.

Cafodd rhaglen LEADER Ceredigion 2014-2020 ei gweinyddu unwaith eto gan Gyngor Sir Ceredigion a Grŵp Gweithredu Lleol Cynnal y Cardi.

Un agwedd o wahaniaeth sylweddol rhwng cyfnodau 2007-2013 a 2014-2020 o'r rhaglen yw'r newid mewn rheoleiddio cymorth gwladwriaethol rhwng

rhaglenni.¹⁵ Roedd hyn yn effeithio ar allu Cynnal y Cardi i gyllido busnesau ac mewn ffordd sy'n gydnaws ag egwyddorion LEADER, fel a wnaed yn y cyfnod cyllid blaenorol gyda mentrau fel Ysgol Fenter y Cardi. Roedd yr anallu i ddarparu cymorth gwladwriaethol yn cael ei ddisgrifio gan un rhanddeiliad allweddol fel gwendid mwyaf rhaglen LEADER 2014-2020, a chyfle oedd yn cael ei golli i ddatblygu economi Ceredigion. Fodd bynnag, mae newid mewn amgylchiadau ers y pandemig Covid-19 wedi arwain at allu newydd i gefnogi economi Ceredigion, gyda Cynnal y Cardi yn cael ei gymeradwyo i ddarparu cymorth *de minimus* i fusnesau a sefydliadau.

Bu rhaglen 2014-2020 er hynny yn ymwneud ag amrywiaeth dda o sefydliadau cymunedol sydd wedi cyflawni prosiectau a gafodd effaith wrth ymdrin â materion pwysig i Geredigion. Mae Cynnal y Cardi wedi gweithredu 54 o brosiectau hyd yma sy'n ymestyn ar draws pum thema LEADER, ac sy'n ymdrin â phum thema Strategaeth Datblygu Lleol Ceredigion ar gyfer 2014-2020. Mae'r prosiectau wedi ymdrin ag amrywiaeth o faterion ymarferol a phryderon i gymunedau Ceredigion, gan gynnwys llesiant, iechyd meddwl a gwastraff bwyd.

¹⁵ Mae cymorth gwladwriaethol yn unrhyw fantais a roddir gan awdurdodau cyhoeddus trwy adnoddau'r wladwriaeth ar sail ddewisol i unrhyw sefydliadau a allai fod â'r potensial o ystumio cystadleuaeth a masnach yn yr Undeb Ewropeaidd.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 6

Bwyd Dros Ben Aber

Rhaglen LEADER Cyfnod 2014-2020

Trosolwg

Grŵp cymunedol dan arweiniad gwirfoddolwyr yn Aberystwyth yw Bwyd Dros Ben Aber, sydd â'r nod o leihau gwastraff bwyd yn y dref a'r ardaloedd o gwmpas. Mae ei brif weithgareddau yn cynnwys casglu gwastraff bwyd o wahanol siopau o



gwmpas Aberystwyth, yn bennaf archfarchnadoedd, a naill ai ailddosbarthu'r bwyd i'r gymuned leol neu droi'r bwyd yn gompost. Caiff y bwyd ei ailddosbarthu i elusennau, grwpiau, teuluoedd, ac unigolion, gyda'r gwaith o ddsbarthu'r bwyd yn cael ei wneud yn aml trwy ddefnyddio beiciau a threlars. Mae'r mudiad hefyd yn rhedeg cwmni cydweithredol bwyd organig.

Cefndir

Fe wnaeth Cynnal y Cardi gyllido'r peilot ar gyfer Bwyd Dros Ben Aber rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mai 2019. Fe wnaeth ddarparu cyllid ar gyfer dau Reolwr Prosiect, a gyflogwyd am 30 awr yr wythnos, ac aelod ychwanegol o staff am 5 awr yr wythnos. Rhoddodd y cyllid gyfle i'r grŵp ddatblygu'r mudiad, gan roi iddynt yr hyder y gallent redeg y prosiect, a gadael i'r

gymuned wybod beth oedd yn bosibl ei gyflawni gyda gwastraff bwyd. Cafodd y flwyddyn beilot ei disgrifio fel y sylfaen gychwynnol, gyda'r mudiad wedi datblygu'n sylweddol ers y cyfnod cyllid cychwynnol hwn. Rhoddodd yr hyder a'r sgiliau i symud ymlaen i ennill cyllid pellach i gynnal y gweithrediad. Fe wnaeth Cynnal y Cardi ddarparu cymorth hefyd trwy helpu gyda gweinyddu a gwaith papur.

Cychwynnodd y grŵp ymwneud ag aiddosbarthu gwastraff bwyd am y tro cyntaf at ddiwedd 2016, ar ôl cael eu symbylu i weithredu trwy weld y swm o fwyd a oedd yn cael ei wastraffu gan archfarchnadoedd yn y dref. Ar y cychwyn, roedd y grŵp yn ceisio hwyluso cydweithredu rhwng archfarchnadoedd ac elusennau a oedd yn bod eisoes i fynd i'r afael â gwastraff bwyd, ond gyda methiant wrth ddatblygu hyn, aethant i'r afael â'r dasg eu hunain. Roedd Bwyd Dros Ben Aber, a oedd yn cael ei redeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr yn eu hamser hamdden, yn gweithredu system o 'dalw yn ôl eich dymuniad' i godi'r cyllid i weithredu. Yn 2018, dyfarnwyd cyllid i'r grŵp am ddwy rôl lawn-amser ac un ran-amser i ddatblygu'r mudiad trwy beilot.

Effaith a Gwaddol y Prosiect

Mae Bwyd Dros Ben Aber yn enghraifft dda iawn o'r math o weithio o'r gwaelod i fyny ar lawr gwlad y mae LEADER yn ceisio'i feithrin. Roedd y brwdfrydedd ynghylch y fenter yn dangos beth y gallai'r gymuned ei gyflawni wrth weithio gyda'i gilydd. Mae'r mudiad yn canolbwyntio ar yr ardal leol, ac ar wahân i'r nifer bach o swyddi taledig, caiff ei redeg gan wirfoddolwyr.



Mae gan Bwyd Dros Ben Aber tua 60 o wirfoddolwyr ar hyn o bryd, gyda rhestr hir o unigolion eraill yn awyddus i gyfrannu. Yn sgil y galw poblogaidd

am gyfleoedd gwirfoddoli, bu'n rhaid datblygu proses ymgeisio. Mae Bwyd Dros Ben Aber yn pwysleisio mai eu nod yw gwneud gwirfoddoli mor ystyrlon ag sy'n bosibl i unigolion, ac maent yn darparu hyfforddiant mewn diogelwch bwyd i'r holl aelodau. Mae grymuso gwirfoddolwyr yn rhan greiddiol o'u hethos, a hyfforddiant yn cael ei ddarparu gyda'r nod o rymuso gwirfoddolwyr i gymryd cyfrifoldeb dros benderfynu a gweithredu.

Mae'r mudiad wedi cydweithio hefyd ag elusennau lleol a rhanbarthol eraill megis canolfan teuluoedd y Borth a Byddin yr Iachawdwriaeth. Yn ystod y cyfnod y cawsant eu cyllido gan Cynnal y Cardi, bu Bwyd Dros Ben Aber yn cynnal gweithgareddau ennyn diddordeb gydag ysgolion, gan gyrraedd cyfanswm o 700 o ddisgyblion mewn pump o ysgolion, ac addysgu plant ar wastraff bwyd.

Llwyddodd y peilot i alluogi'r sefydliad i dyfu a sefydlu presenoldeb cynaliadwy yn Aberystwyth. O fewn y cyfnod a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi, dosbarthwyd dros 37,000 o brydau bwyd o fewn cymuned Aberystwyth.

Mae Bwyd Dros Ben Aber wedi tyfu'n sylweddol ers y cyllid gan Cynnal y Cardi ac maent wedi gallu sicrhau ffynonellau eraill o gyllid i'w galluogi hwy i barhau. Mae hyn wedi cynnwys cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Cenedlaethol yn 2019 a arweiniodd at brynu bin compost 400-litr, a gafwyd ar ôl y flwyddyn beilot. Mae rhai elfennau o'u gweithredu, megis ailddosbarthu bwyd, yn gwbl gynaliadwy a hunan-gyllidol, ond nod y mudiad yw dod i chwarae rhan mewn prosiectau ehangach i ddarganfod ac annog systemau newydd ar gyfer gwastraff bwyd.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 7

Camau Bach, Ystrad Fflur – Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur

Rhaglen LEADER Cyfnod 2014-2020

Trosolwg

Prosiect cymunedol yw Camau Bach a gychwynnodd yn 2018 i ddysgu pobl leol am dreftadaeth safle Abaty Ystrad Fflur, a meithrin gallu'r ardal leol i ddatblygu'r safle ymhellach. Mae wedi cynnwys creu swydd Swyddog Cymunedol i redeg



a chydgylltu cyfres o weithgareddau gyda'r gymuned leol ym Mhonrhydfendigaid gan ddefnyddio a hyrwyddo sgiliau sy'n canolbwyntio ar dreftadaeth.

Mae Camau Bach yn weithgaredd allweddol i Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur wrth iddi weithio tuag at ddatblygu Canolfan Ystrad Fflur. Eu nod hirdymor yw creu arddangosfa gyhoeddus ar y safle, a ddaeth yn nes at gael ei gwireddu ar ôl caffael y ffermdy ac adeiladau gerllaw'r safle yn ddiweddar.

Effaith a Gwaddol y Prosiect

Deillodd Camau Bach o waith blaenorol gan yr Ymddiriedolaeth i annog y boblogaeth leol i ymwneud mwy â'r safle, a sefydlwyd grŵp cyswllt cymunedol i'r diben hwn. Fe wnaeth cyllid Cynnal y Cardi alluogi creu swydd y Swyddog Cymunedol i symud ymlaen gyda'r ymdrechion hyn.

Mae'r cyllid gan Cynnal y Cardi wedi arwain at sicrhau cyllid pellach o dair gwahanol ffynhonnell i ddatblygu prosiectau cymunedol eraill, megis prosiect tecstilau gyda'r gymuned leol, a chân a gyfansoddwyd ar gyfer y safle gan Tŷ Cerdd, a oedd i fod i gael ei chanu gan blant yr ysgol gynradd leol nes i Covid-19 darfu ar y cynlluniau.



Er bod llawer o'r gwaith ennyn diddordeb wedi bod gyda thref Pontrhydfendigaid, mae'r prosiect wedi llwyddo i ennyn diddordeb o ymhellach i ffwrdd. Fe wnaeth 11 o fyfyrwyr o gwrs Meistr Archifo Prifysgol Aberystwyth wirfoddoli eu hamser i astudio ac archifo dogfennau o'r ffermdy a gaffaelwyd. Fe wnaeth y gweithdy ar-lein cyntaf a gynhaliwyd gan brosiect Camau Bach ddenu 50 o bobl, gan gynnwys unigolion o'r Alban ac Unol Daleithiau America.

Mae cyllid Cynnal y Cardi ychwanegu gwerth at waith Ymddiriedolaeth Ystrad

Fflur trwy allogi'r elfen o'r gweithgareddau sy'n ymwneud ag ennyn diddordeb y gymuned. Cafodd ei disgrifio fel elfen hanfodol o'u cynlluniau i adfer yr adeiladau fferm a chreu arddangosfa, oherwydd heb y gwaith ennyn diddordeb, byddai llai o symbyliad i bobl ymwneud â'r prosiect.

Bydd Covid-19 wedi cael effaith ar y cynlluniau ar gyfer Camau Bach, ond mae'r prosiect wedi cyflawni ei amcanion a'i nodau. Roedd y digwyddiadau ennyn diddordeb yn denu presenoldeb da, ac mae criw o wirfoddolwyr wedi eu sefydlu, gyda rhai cyfleoedd fel gwirfoddoli ar gyfer garddio ar y safle yn

boblogaidd iawn. Roedd y digwyddiadau a gynhaliwyd yn cynnig pynciau a daniodd ddiddordeb, megis gweithdai ar ddyddio tai a gwriadwaith ffelt. Mae cymorth Cynnal y Cardi hefyd wedi sicrhau cyllid pellach o ffynonellau eraill, ac mae'n rhoi llwyfan i Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur adeiladu tuag at gynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 8

Cymunedau Caredig

Rhaglen LEADER Cyfnod 2014-2020

Trosolwg

Nod Cymunedau Caredig, prosiect a gafodd ei gyllido gan Cynnal y Cardi a'i redeg gan Arts4Wellbeing, oedd creu canolfannau cymunedol caredig, creadigol a chydgynhyrchiol mewn wyth¹⁶ neuadd bentref ledled Ceredigion. Roedd y canolfannau cymunedol i



gael eu datblygu trwy gynnydd sesiynau celf a chreffft wythnosol. Trwy gychwyn canolfannau celf a chreffft, roedd y trefnwyr, Sara Wentworth a Mike Hotson, yn defnyddio celf i ddod â chymunedau at ei gilydd i drechu unigrwydd, teimlad ynysig a diffyg grymuster. Roedd cyfranogwyr yn aml yn wynebu heriau personol, megis gofalu am bartner a oedd â dementia, yn dioddef profedigaeth, neu'n derbyn triniaeth am ganser, ac roedd y grwpiau yn cynnig cyfle i fynd i'r afael â heriau cysylltiedig fel ynysigrwydd.

Wrth cynnig gweithgareddau hwyliog a diddorol seiliedig ar gelf, a thrwy gynnydd te, cacen, a'r cyfle i gyfarfod â chymdogion i gymdeithasu a chymryd

¹⁶ Cafodd yr wyth canolfan eu cywasgu'n saith dros amser, wrth i ddau grŵp uno.

rhan mewn gweithgareddau gyda hwy, nod Cymunedau Caredig oedd galluogi cyfranogwyr i ddatblygu cysylltiadau dyfnach gyda'r rheini yn eu cymuned, yn ogystal ag adeiladu hyder a gwydnwch. Roedd y broses greadigol yn helpu i hwyluso sgysiau a chysylltiadau ar lefel ddyfnach, wrth i gyfranogwyr ddod i sesiynau gyda meddyliau agored, yn barod i ddysgu gyda'i gilydd wrth iddynt roi cynnig ar wahanol grefftau.

Nod Cymunedau Caredig oedd datblygu canolfannau cymunedol hunan-gynhaliol. Mae'r sesiynau cychwynnol yn cael eu hwyluso gan y trefnwyr am y 26 wythnos gyntaf, a nodau sylfaenol y sesiynau hyn yw gweithio ar deimladau'r cyfranogwyr tuag atynt eu hunain, yna'r teimladau tuag at eraill, a'r teimlad o gymuned, cyn paratoi'r grwpiau i gymryd drosodd y gwaith o hwyluso'r sesiynau. Mae gwirfoddolwyr yn dod ymlaen yn ystod y 26 wythnos hyn ac maent yn cael eu paratoi ar gyfer cymryd drosodd y gwaith o hwyluso'r grwpiau.



Fe wnaeth cyllid Cynnal y Cardi alluogi'r prosiect i fynd yn ei flaen, ac yn driw i ethos LEADER, roedd parodrwydd i archwilio a datblygu peilot Cymunedau Caredig er gwaethaf y risgiau sydd ynghlwm â chyllido prosiectau blaenllaw sy'n arbrofi gyda hyrwyddo llesiant. Talodd y

cyllid am y cyflenwadau celf a chreffft ac am yr amser wyneb yn wyneb a roddodd y ddau drefnydd i'r sesiynau. Rhoddwyd, fodd bynnag, swm sylweddol o amser gwirfoddol i'r prosiect gan y trefnwyr, gyda'r sesiynau'n gofyn am oriau o waith paratoi.

Roedd y prosiect yn dangos egwyddorion LEADER gan fod y syniad am y prosiect wedi dod allan o ymgynghori helaeth â'r gymuned, a wnaed o'r blaen gan drefnwyr Cymunedau Caredig. Roedd 32 o ddyddiau blasu wedi cael eu cynnal o'r blaen gyda 32 o wahanol gymunedau, wedi eu hariannu gan Sefydliad Dr Dewi Davies. Fe wnaeth yr wybodaeth a enillwyd o'r ymgynghoriadau hyn ddylanwadu ar gynllun prosiect Cymunedau Caredig.

Effaith a Gwaddol y Prosiect

Mae Cymunedau Caredig yn adeiladu ar ddatblygu dealltwriaeth o werth cymdeithasol ac economaidd mynd i'r afael â materion llesiant ar lefel y gymuned. Mae canolfannau Cymunedau Caredig wedi datblygu cysylltiadau gyda gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, ac mae cyfranogwyr wedi cynnwys unigolion a atgyfeiriwyd atynt trwy bresgripsiynu cymdeithasol. Roedd y trefnwyr yn awyddus i ddatblygu'r prosiect hwn fel esiampl blaenllaw o bresgripsiynu cymdeithasol. Ffurfiwyd cysylltiadau cryf â Thîm Cwmpïadau ac Eiddilwch De Ceredigion, a agyfeiriodd unigolion at Cymunedau Caredig. Gwnaed cysylltiadau hefyd â sefydliadau iechyd meddwl trydydd sector fel Mind, sydd wedi mynychu sesiynau.

Llwyddiant Cymunedau Caredig yw bod y trefnwyr wedi gwneud eu hunain yn ddi-waith. Roedd llawer o'r grwpiau wedi dod yn hunan-gynhaliol ac roeddent yn parhau i gyfarfod hyd yn oed ar ôl i gydgyssylltwyr Arts4Wellbeing drosglwyddo cyfrifoldeb dros redeg y grŵp i'r cymunedau. Mae Covid-19 ers hynny wedi effeithio ar waith y grwpiau hunan-gynhaliol, gyda chyfnodau clo yn ystod llawer o 2020 yn effeithio ar y gallu i redeg y canolfannau a gafodd eu cychwyn hwyraf gan y trefnwyr. Mae trefnwyr Cymunedau Caredig fodd bynnag wedi bod yn helpu'r canolfannau cymunedol i gyflawni gweithgareddau ar-lein ac roeddent yn optimistaidd y bydd y grwpiau a gefnogwyd yn parhau ar ôl Covid-19.

Fe wnaeth y prosiect ragori'n fawr ar ei ddangosyddion targedau, gyda dros 400 o bobl wedi cymryd rhan, gan gynnwys 65 o bobl ifanc, 140 o bobl oedrannus, a thros 100 o bobl ag anableddau. Mae ei lwyddiannau allweddol, fodd bynnag, yn ymwneud â'r cysylltiadau mae'r prosiect wedi eu ffurfio o fewn cymunedau, gyda'r prosiect â'r nod o ryddhau'r potensial am adeiladu cymunedau a datblygu cydberthnasau cryf a gollir pan fo pobl yn aros wedi eu hynysu y tu ôl i ddrysau wedi cloi.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 9

Gwasanethau Cwnsela Ar-lein “Yma i Chi” – Area 43

Rhaglen LEADER Cyfnod 2014-2020

Trosolwg

Elusen annibynnol wedi'i lleoli yn Aberteifi yw Area 43, sy'n cynnig gwasanaethau cwnsela galw-heibio rhad am ddim i bobl 10-30 oed. Maent wedi bod yn gweithredu ers 1996, a'u nod yw cynnig amgylchedd diogel, hwyliog, addysgiadol ac ysbrydoledig er mwyn galluogi pobl ifanc i gael at gymorth. Maent yn gwasanaethu'r bobl ifanc hynny nad oes ganddynt efallai fynediad at y cymorth mae arnynt ei angen ar gyfer amrywiaeth o broblemau y gallant fod yn eu hwynebu.

Cefndir

Daeth "Yma i Chi", y prosiect a gaiff ei gyllido gan Cynnal y Cardi a'i redeg gan Area 43, i fod pan sylweddolwyd bod llawer o bobl sydd angen cwnsela yn rhai nad yw'r dref bob amser o fewn cyrraedd iddynt. Gall y rhain fod yn bobl ifanc wedi eu hynysu, megis ffermwyr a'r



rheini sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig ac sydd mewn perygl o iselder a hunan-laddiad. Gan fod Area 43 yn gweithredu o ganolfan ffisegol, roedd problemau mynediad i'r unigolion hyn a oedd yn agored i risg. Gan adeiladu ar welliannau i ymestyniad band eang yng Ngheredigion, penderfynasant dreialu gwasanaeth cwnsela dwyieithog ar-lein i'r rheini mewn ardaloedd gwledig. Roedd y Grŵp Gweithredu Lleol yn frwd ynghylch y peilot, ac yn deall yr angen am wasanaeth o'r fath.

Sicrhawyd cyllid gan Cynnal y Cardi i dalu am amser staff, offer, a gwaith hyrwyddo i hysbysebu'r gwasanaeth. Roedd y bobl roeddent yn ceisio'u cyrraedd yn unigolion na fyddai o angenrheidrwydd yn estyn allan at wasanaeth fel hwn, a oedd yn gofyn am gryn dipyn o waith hyrwyddo, gan gynnwys bod â phresenoldeb mewn sioeau amaethyddol.

Effaith a Gwaddol y Prosiect

Roedd y prosiect yn llwyddiannus iawn, ac fe wnaeth gynnwys dros 80 o bobl ifanc gyda phob un ohonynt wedi derbyn dros ddeg o sesiynau. Roedd y diddordeb yn araf i ddechrau, ond wrth i'r gair ledaenu ar lafar, tyfodd y niferoedd. Roedd y bobl ifanc a dderbyniodd gymorth yn dod gydag amrywiaeth o broblemau, megis gorbryder a straen, problemau teuluoedd, meddyliau am hunanladdiad, ac iselder. Dywedodd rhai mewn adborth i'r elusen na fyddent wedi gallu cael y math hwn o wasanaeth heb eu hymyrraeth, neu y byddent wedi bod yn aros am amser hir am wasanaethau

tebyg gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Roedd Area 43 yn gallu cyfeirio unigolion a oedd ag angen am gwrsela mwy hirdymor ymlaen at wasanaethau mwy addas neu ymlaen at feddygon teulu.

Arweiniodd y prosiect peilot a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi at sicrhau grantiau pellach gan y Loteri Cenedlaethol. Galluogodd y peilot i Area 43 ddatblygu'r syniad a dangos y gallai weithio'n ymarferol. Rhoddodd yr hyder i'r mudiad y byddai'r dull yn gweithio, ac y gallai fod yn llwyddiannus. Gan adeiladu ar lwyddiant y prosiect, mae Area 43 wedi gallu sicrhau cyllid gan dri o glystyrau meddygon teulu ac ymestyn eu gwasanaethau i Sir Benfro a Sir Gâr. Un o fuddion annisgwyl y prosiect a ddaeth i'r amlwg pan wnaeth Covid-19 eu taro, oedd bod gan yr elusen eisoes dîm o gwrselwyr a oedd yn barod ac wedi eu hyfforddi i weithio o bell mewn modd moesegol a diogel. Gwaddol sylweddol o'r prosiect, felly, yw bod o fewn wythnos i'r cyfnod clo cyntaf yn 2020, eu holl wasanaethau wedi addasu o fod wyneb-yn-wyneb i fod ar-lein.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 10

Academi'r Dyfodol – Coleg Ceredigion

Rhaglen LEADER Cyfnod 2014-2020

Trosolwg

Prosiect peilot a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi yw Academi'r Dyfodol i gyflwyno gweithdai ymarferol, o dan arweiniad entrepreneuriaid ac arweinwyr busnes lleol, sy'n cynnig cyfleoedd i bobl ifanc dderbyn profiadau galwedigaethol ymarferol.



Cychwynnodd y prosiect yn 2019, ond roedd ei Gyfnod 2 yn methu â mynd ymlaen oherwydd Covid-19. Diben y prosiect, a weithredwyd gan Goleg Ceredigion, oedd gwneud cyfleoedd hyfforddi yn brofiadau cyffrous, ac annog a hyrwyddo mentergarwch, angerdd, a diben o fewn y demograffeg targed. Ei nod yw rhoi ysbrydoliaeth i bobl ifanc weld beth y gall eu dewisiadau ynghylch cymwysterau arwain tuag ato yn y dyfodol. Mae Academi'r Dyfodol yn gweithredu o fewn pedwar maes: bwyd, celfyddydau perfformio, fideo a ffotograffiaeth, a chelf.

Roedd yn bwriadu gweithio gyda dau gohort, y grŵp oedran 14-16 mlwydd oed, a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Y bwriad oedd treialu'r prosiect gyda phobl ifanc 14-16 oed, yna gweithredu'r gwersi a ddysgwyd ar y grŵp NEET +16, fodd bynnag ni allodd Cyfnod 2 fynd ymlaen oherwydd Covid-19.

Cafodd y ddau grŵp hyn eu dewis fel targedau gan fod Coleg Ceredigion yn rhedeg llawer o gyrsiau galwedigaethol, ac roedd y prosiect hwn yn cynnig cyfle i hyrwyddo'u buddion i'r ddau grŵp hyn a'u hannog i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol.

Fe wnaeth Academi'r Dyfodol recriwtio pobl ifanc o ysgolion lleol i gymryd rhan yn y gweithdai. Daeth entrepreneuriaid ac arweinwyr busnes i mewn i gyflwyno hyfforddiant ymarferol ac arwain gweithdai "Ted Talk" eu naws. Roedd yr entrepreneuriaid yn dod o fusnesau lleol a chawsant eu dewis i weithredu fel esiamplau realistig a chredadwy i ddangos dyfodol posibl, a llwybr hyfforddiant i gyrraedd yno.

Roedd Coleg Ceredigion yn gallu manteisio ar eu cysylltiadau eu hunain gydag arweinwyr busnes i recriwtio'r entrepreneuriaid. Mae'n bwysig i Academi'r Dyfodol gynnwys entrepreneuriaid dwyieithog er mwyn dangos gwerth gweithredu'n ddwyieithog i fusnesau yng Ngheredigion.

Fe wnaeth cyllid Cynnal y Cardi alluogi Academi'r Dyfodol i gefnogi swydd Rheolwr y Prosiect, talu am arbenigwyr i ymwneud â'r prosiect, a chyllido cludiant ar gyfer y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan. Roedd y swydd reoli lawn-amser yn hanfodol ar gyfer sefydlu'r prosiect, ac ni fyddai'r prosiect wedi bod yn ddichonadwy hebdi. Fe wnaeth Cynnal y Cardi hefyd ddarparu cymorth

ymarferol i'r peilot, wrth gynnal cyfarfodydd prosiect rheolaidd gyda'r tîm gweithredu, cefnogi'r ymarferiad brandio a'r marchnata, a rhoi'r tîm gweithredu mewn cysylltiad â phobl a allai gefnogi'r prosiect. Dywedwyd bod tîm Cynnal y Cardi yn gwbl allweddol i lwyddiant y peilot, wrth gynnig canllawiau a syniadau i'r prosiect.

Effaith a Gwaddol y Prosiect

Roedd Academi'r Dyfodol yn llwyddiannus wrth annog nifer o gyfranogwyr ifanc i ddilyn hyfforddiant galwedigaethol. Allan o'r 11 o gyfranogwyr a oedd yn gymwys i ymgeisio am gyrsiau yng Ngholeg Ceredigion, mae wyth o'r disgyblion a fu'n cymryd rhan wedi cychwyn yn y coleg ers hynny. Yr allwedd



i'r llwyddiant hwn oedd gadael i'r cyfranogwyr brofi sut beth oedd bod mewn coleg. Cafodd y pedwar maes thematig eu dewis hefyd i adeiladu ar asedau a oedd gan y Coleg, megis cyfleusterau cegin, cyfryngau a pherfformio o ansawdd uchel. Roeddent yn galluogi cyflwyno sesiynau diddorol o ansawdd uchel. Trwy'r dull ymarferol, roedd y bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn "taflu eu hunain i mewn i'r prosiect", ac roeddent yn gallu creu rhywbeth – wrth weithio tuag at brosiect

terfynol.

Mae'r prosiect peilot yn dangos dull LEADER trwy ei ddechreuad o'r gwaelod i fyny. Cynlluniodd Coleg Ceredigion y prosiect ar sail profiad yn y gorffennol, ac roeddent yn llwyddiannus wrth sicrhau cyllid a chymorth gan Cynnal y Cardi. Mae gweithio gydag entrepreneuriaid ac arweinwyr busnes lleol yn cryfhau ymhellach y partneriaethau rhwng Coleg Ceredigion – fel darparwr hyfforddiant galwedigaeth – a'r gymuned fusnes leol. Mae'r prosiect felly yn

cefnogi Strategaeth Datblygu Lleol Cynnal y Cardi a'i thema "Datblygu ein Pobl a'n Sefydliadau."

Rhai eraill sydd wedi cael budd o'r prosiect yw rheini'r bobl ifanc a gymerodd ran. Roedd rhieni wedi bod yn bryderus nad oedd eu plant yn gwybod beth oedd arnynt eisiau ei wneud – ffaith a gafodd ei chyfleu i Drefnwyr Academi'r Dyfodol. Trwy'r prosiect, daeth rhieni, yn ogystal â'r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan, yn ymwybodol o wahanol lwybrau hyfforddiant galwedigaethol y gallai eu plant eu dilyn.

Er i Gyfnod Dau peilot Academi'r Dyfodol gael ei darfu gan Covid-19, mae gan y tîm gweithredu bellach batrwm y gellir ei ddilyn yn y dyfodol gyda phrosiectau eraill tebyg.

Prosiectau Cydweithredol LEADER Cynnal y Cardi

Yn ogystal â phrosiectau sydd wedi eu lleoli o fewn sir Ceredigion, mae Cynnal y Cardi wedi gweithredu naw prosiect cydweithredol gydag Awdurdodau Lleol cyfagos a phartneriaid domestig a rhyngwladol eraill, gan gynnwys Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi gyda Gwynedd a Powys (gweler Astudiaeth Achos 11), a Phrosiect Dyfodol Cambrian gyda Powys a Sir Gâr (gweler Astudiaeth Achos 12).

Bwriad prosiectau Cydweithredu LEADER yw annog ardaloedd gwledig i weithio gyda'i gilydd ar brosiectau a ddaw â budd i'r holl bartneriaid sy'n cymryd rhan ynddynt. Cafodd y prosiectau cydweithredu a gaiff eu hasesu isod eu cyflawni mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol cyfagos, a thrwy hynny alluogi prosiect a gyllidwyd gan LEADER i gwmpasu ardal ddaearyddol benodol sy'n ymestyn ar draws sawl awdurdod.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 11

Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi

Prosiect Cydweithredu Rhaglen LEADER Cyfnod 2014-2020

Trosolwg

Biosffer Dyfi yw'r unig Warchodfa Biosffer UNESCO yng Nghymru. Caiff Biosffer Dyfi ei rheoli gan bartneriaeth y daw ei haelodau o'r sector statudol (gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion), y sector gwirfoddol, ffermio a sefydliadau cymunedol a busnesau. Mae EcoDyfi, ymddiriedolaeth datblygu lleol ym Machynlleth, yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer y bartneriaeth ar hyn o bryd. Cenhadaeth allweddol Biosffer Dyfi yw cysylltu pobl â byd natur, diwylliant a threftadaeth ardal Biosffer Dyfi.

Nid yw Partneriaeth Biosffer Dyfi yn derbyn dim cyllid craidd, sy'n ei gwneud yn anodd datblygu rhaglenni cydweithredol ymarferol, gyda phrosiectau yn cael eu cyflawni trwy bartneriaid sy'n sicrhau eu grantiau neu eu contractau eu hunain.

Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi

Mae Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi yn brosiect cydweithredol a gaiff ei ariannu a'i gefnogi ar y cyd gan raglenni LEADER Gwynedd, Powys, a Ceredigion. Cyngor Sir Ceredigion yw corff arweiniol y prosiect, gyda Chydgysylltydd Gwledig y Sir yn arwain y Grŵp Llywio. Roedd y cynllun yn cynnwys cyflogi swyddog datblygu i greu capasiti yn y rhanbarth trwy gefnogi gweithredu cymunedol. Ei amcanion yn archwilio ffyrdd y gall brand Biosffer Dyfi gyflawni buddion economaidd a buddion eraill, ac annog plant a phobl ifanc i ymddiddori ac ymwneud â Biosffer Dyfi.

Roedd y swyddog datblygu a gafodd ei recriwtio wedi gadael ar ôl ychydig misoedd yn y swydd, ac aflwyddiannus fu ymdrechion dilynol i recriwtio swyddog datblygu arall. Cafodd dau faes Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi o'r herwydd eu rhoi allan ar dendr i gontractwyr allanol fel dau becyn gwaith ar wahân. Penodwyd Jane Powell, ymgynghorydd annibynnol, i weithio i ganfod ffyrdd newydd o gynnwys pobl ifanc mewn trafodaethau ynghylch ynni, bwyd, swyddi a diwylliant yn rhanbarth Biosffer Dyfi. Enillodd EcoDyfi y pecyn gwaith bwyd a diod yn yr ail gylch.



Amcan bwyd a diod cyllid Cynnal y Cardi yw cryfhau'r clwstwr o fusnesau bwyd a diod sy'n defnyddio, neu sydd arnynt eisiau defnyddio, cynnyrch lleol, ac sydd arnynt eisiau hyrwyddo hynny i'w cwsmeriaid. Caiff y clwstwr ei hyrwyddo a'i farchnata o fewn cyd-destun Biosffer Dyfi fel is-frand – Blas Dyfi Taste – sy'n cynnwys cyfarwyddiadau i helpu busnesau hyrwyddo cynnyrch o ardal Biosffer Dyfi. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae dau ddigwyddiad arddangos wedi cael eu cynnal er mwyn

dod â busnesau a chynhyrchwyr lletygarwch at ei gilydd.

Mae dull LEADER wedi ei ymwreiddio yng ngwaith Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi. Mae cyd-drafod ar lawr gwlad wedi digwydd yn ffurf cyd-drafod â busnesau lleol sy'n rhannu'r uchelgeisiau i hyrwyddo bwyd lleol. Mae eu cyfraniad wedi arwain at gydgyllunio cynllun Blas Dyfi. Nodwyd, fodd bynnag, fod cydgynhyrchu'r cynllun gyda busnesau yn gosod disgwyliadau hefyd o fewnbwn y tu hwnt i'r hyn roedd llawer o fusnesau yn fodlon ei roi, ac y byddai wedi bod yn well gan lawer gael eu cyflwyno â phecyn parod cyflawn. Gobeithir, fodd bynnag, y bydd y graddau o gydgyynhyrchu yn arwain at fwy o hirhoedledd i'r brand gan ei fod yn fwy cydnaws â dyheadau a disgwyliadau busnesau yn yr ardal. O dan y maes cynnwys plant a phobl ifanc, mae cydweithio wedi digwydd hefyd gydag ysgolion ac athrawon, gydag

Ysgol Bro Hyddgen yn ennill gwobr UNESCO yn rhannol ar sail eu gwaith gyda Phrosiect Biosffer Dyfi.

Mae Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi wedi wynebu rhai heriau. Arweiniodd ymadawriad y Swyddog Datblygu at gynnydd tameidiog ac anwadal, a dyma fu'r her mwyaf i'r prosiect. Roedd y rôl yn gofyn am unigolyn gyda phrofiad a gallu i yrru'r prosiect yn ei flaen, a nodwyd efallai fod cyflog a natur tymor byr y swydd yn rhwystr wrth ddenu'r ymgeiswyr iawn i'r rôl. Roedd y Bartneriaeth, fodd bynnag, yn gallu ailstrwythuro prosiect y Cynllun Cydweithredu i ganfod ateb ymarferol i'r her a wynebwyd.

Effaith a Gwaddol y Prosiect

Bydd yn cymryd rhai blynyddoedd i wybod beth yw gwir waddol dau faes Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi. Bydd hirhoedledd brand Blas Dyfi Taste yn dibynnu ar y graddau y bydd busnesau lleol yn ei arddel, ond mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ennyn diddordeb ac ymrwymiad y gymuned fusnes ym Miosffer Dyfi, gyda'r Bartneriaeth wedi sicrhau cyllid newydd trwy Lywodraeth Cymru a Chynllun Meithrin Gallu Adferiad Gwyrdd Cronfa Treftadaeth y Loteri Cenedlaethol.

Cynnal y Cardi, Astudiaeth Achos 12

Dyfodol Cambrian

Prosiect Cydweithredu Rhaglen LEADER Cyfnod 2014-2020

Trosolwg

Mae Dyfodol Cambrian yn brosiect cydweithio a gyllidir gan LEADER ac a gefnogir gan y Grwpiau Gweithredu Lleol yng Ngheredigion, Powys, a Sir Gâr, a chaiff ei arwain gan Bowys. Caiff y prosiect pum-mlynedd ei gyflawni gan Fenter Mynyddoedd Cambria a chychwynnodd yn gynnar yn 2017. Y tu hwnt i'r cyllid a dderbyniwyd trwy LEADER, mae Dyfodol Cambrian wedi gallu sicrhau cyllid cyfatebol gan amrywiaeth helaeth o bartneriaid pellach, gan gynnwys Prifysgol Aberystwyth, Ymddiriedolaeth Cwm Elan, a ffermydd gwynt Cefn Croes a Brechfa.

Nod Dyfodol Cambria yw grymuso cymunedau ym Mynyddoedd Cambria a'r tri Awdurdod Lleol i fynd ati mewn ffordd fwy strategol a chydweithredol i ymdrin â dyfodol y rhanbarth. Ymysg gweithgareddau Dyfodol Cambrian mae gwaith ymwneud â chymunedau a busnesau lleol i adeiladu economi ardal Mynyddoedd Cambria, yn ogystal ag amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r cryfhau hwn wedi cael ei gyflawni trwy fanteisio ar asesau diwylliannol a naturiol trawiadol cymunedau a thirwedd Mynyddoedd Cambria, gyda Dyfodol Cambria yn ffurfio rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol rhwng cynhyrchwyr a busnesau bwyd a diod yn y rhanbarth, a gweithio tuag at ddatblygu brand Mynyddoedd Cambria.

Effaith a Gwaddol y Prosiect

Mae Dyfodol Cambrian wedi gweithio tuag at adeiladu Mynyddoedd Cambria fel cyrchfan ymwelwyr trwy ddatblygu brand Mynyddoedd Cambria, cryfhau Rhwydwaith Twristiaeth Mynyddoedd Cambria, a datblygu arferion gwaith mwy integredig ar draws sefydliadau rhanbarthol twristiaidd. Y nod oedd datblygu cynnig twristiaeth mwy cydlynol o fewn Mynyddoedd Cambria.

Un o weithgareddau allweddol prosiect Dyfodol Cambrian oedd comisiynu nifer o astudiaethau dichonoldeb a phrosiectau ymchwil. Maent wedi cynnwys astudiaethau o rwystrau wrth arallgyfeirio ffermydd ucheldir, a datblygu canllawiau brand ar gyfer brand Mynyddoedd Cambria.

Un astudiaeth ddichonoldeb o'r fath oedd ymchwiliad gyda chymunedau yn yr ardal i ddichonoldeb sefydlu'r ardal fel 'Parc Natur', ar sail y model Ffrengig o Barciau Natur. Byddai'r dynodiad yn codi amlygrwydd yr ardal, yn ogystal â gweithredu fel cyfrwng i annog mwy o gydweithio ar draws yr ardal, gan feithrin gweithio mwy integredig. Byddai'r dynodiad yn dibynnu ar gymunedau'n dewis bod yn rhan o'r parc neu eithrio ohono, gan alluogi cymunedau o fewn Mynyddoedd Cambria ac ar eu cyrion gael eu cynnwys yn y cynllun neu beidio.

Mae'r prosiect wedi ymgorffori dull LEADER drwyddo draw, gan ganolbwyntio ar gyd-drafod â chymunedau er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd sy'n adlewyrchu llais cymunedau Mynyddoedd Cambria. Yn ôl un trefnydd:

“ Mae [Dyfodol Cambrian] o ddifrif yn brosiect sy'n cael ei weithredu gan y bobl er mwyn y bobl – dydyn ni byth yn honni bod â'r atebion. Nid ni sy'n cynnig y syniadau, yr hyn a wnawn yw canfod y datrysiadau.”

Mae mentrau llwyddiannus wedi codi o Ddyfodol Cambrian, megis y Llwybr Seryddol, sef cyfres o safleoedd awyr dywyll ledled yr ardal sydd wedi denu llawer o sylw, gan gynnwys ymddangos yn y National Geographic.

Un o ganlyniadau allweddol y prosiect oedd mynd ati mewn ffordd fwy strategol a chydweithredol wrth ymdrin ag anghenion y rhanbarth. Mae llwyddiant y prosiect wedi arwain at gyllid prosiect cydweithio LEADER pellach ar gyfer prosiect blwyddyn ychwanegol, *Gweithio Gyda'n Gilydd*, ac iddo'r nod o asesu ymhellach sut i oresgyn rhwystrau rhag gweithio ar y cyd

rhwng y tri Awdurdod Lleol, a sefydlu'r strwythurau a'r mecanweithiau gorau bosibl i sicrhau gweithio ar y cyd.

Canlyniad arall a oedd yn fwy annisgwyl yw datblygu teimlad cryfach o le ymysg rhai o fewn Mynyddoedd Cambria, gyda busnesau yn yr ardal wedi ymgyrchu i gael cydnabyddiaeth i'r Mynyddoedd fel ardal benodol gan gyrff fel Croeso Cymru.

Mae prosiect Dyfodol Cambrian wedi gadael yr ardal gyda rhwydweithiau cryfach, mecanweithiau newydd, a chyfryngau cydweithio rhwng cyrff fel busnesau ac Awdurdodau Lleol, ac amrywiaeth o astudiaethau a all arwain datblygiad yr ardal i'r dyfodol. Rhan o waddol y prosiect fydd y drefniadaeth gymunedol gryfach ledled yr ardal, gan fod gwahanol bentrefi a threfi wedi adeiladu cysylltiadau trwy gydweithio ar yr amrywiaeth o weithgareddau a hwyluswyd gan Dyfodol Cambrian. Bydd y cymunedau wedi cael eu gadael gydag ymwybyddiaeth gryfach o le, a fframwaith i ddatblygu ardal Mynyddoedd Cambria ymhellach.

Gwaddol, Effaith, a Dull LEADER

Yn yr adran hon, ystyrir casgliadau ynghylch gwaddol ac effaith Cynnal y Cardi, yn ogystal ag asesiad o'r graddau y mae Cynnal y Cardi wedi gwneud cyfraniadau i anghenion Ceredigion fel y'u nodir yn y Strategaethau Datblygu Lleol.

Cynnal y Cardi a dull LEADER

Dros ddau gyfnod y rhaglen a aseswyd, mae Cynnal y Cardi wedi ymgorffori dull LEADER o gyflawni. Mae llawer o'r prosiectau a aseswyd wedi dangos cymunedau yn cael eu cefnogi i feithrin eu gallu, gyda gwaddol gynaliadwy yn amlwg. Mae rhai o'r prosiectau a aseswyd wedi bod yn arloesol, yn ymgorffori dull LEADER trwy barodrwydd i fentro i arbrofi gyda gweithredu atebion newydd i'r problemau a wynebir gan gymunedau.

Mae Cynnal y Cardi hefyd wedi ymdrin â Blaenoriaeth 6 yr RDP y mae Rhaglen LEADER yn rhan ohoni, sy'n ymdrin â chynhwysiant cymdeithasol a datblygu economaidd, gyda phwyslais penodol ar feithrin datblygu lleol mewn ardaloedd gwledig. Mae'r amrywiaeth o brosiectau a aseswyd wedi gwneud cyfraniadau cadarnhaol sy'n gydnaws â'r blaenoriaethau hyn. Mae effeithiau economaidd cadarnhaol wedi deillio o nifer o brosiectau sydd wedi cefnogi genedigaeth a datblygiad busnesau newydd a mentrau cymunedol fel gwyliau a digwyddiadau. Mae llawer o brosiectau wedi meithrin mwy o gynhwysiant cymdeithasol trwy gynnwys eu cymunedau gwledig mewn prosiectau ar lawr gwlad, sy'n aml â'r nod o fynd i'r afael â phryderon penodol yn eu cymuned leol megis ynysu cymdeithasol neu wastraff bwyd.

Gweithio o'r gwaelod i fyny / ar lawr gwlad

Mae Cynnal y Cardi wedi perfformio'n dda wrth gysoni ei weithgareddau a'i benderfyniadau cyllido â'r egwyddor LEADER hon. Mae gweithio o'r gwaelod i fyny yn amlwg o fewn llawer iawn o'r prosiectau a aseswyd, yn aml gyda'r symbyliad a syniadau am brosiectau yn dod o fudiadau cymunedol, a

gweithgarwch nifer sylweddol o wirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned wrth gyflawni'r prosiect. Mae prosiectau fel Cyswllt Amaeth, Bwyd Dros Ben Aber, Cymunedau Caredig, Dyfodol Cambrian a Tregaroc yn dangos yr egwyddor hon yn amlwg iawn.

Mewn prosiectau sy'n cael eu harwain at sefydliadau mwy ffurfiol, megis Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi a Dyfodol Cambrian, mae cydgynhyrchu ac ymwneud â'r gymuned yn dal i fod yn rhan bwysig o'u gweithrediadau. Er enghraifft, mae datblygu brand Blas Dyfi trwy'r Cynllun Cydweithredu yn golygu ymwneud â busnesau lleol er mwyn cyd-ddatblygu'r brand. Profwyd rhwystrau i gyd-drafod ac ymwneud ar lawr gwlad yn sgil busnesau yn aml yn amharod neilltuo'r amser angenrheidiol i ymwneud â'r fenter.

Roedd rhai cydgysylltwyr prosiectau yn sôn am y gwerth ychwanegol y gall dull llawr gwlad neu o'r gwaelod i fyny ei roi wrth gyflawni prosiect. Roedd cydgysylltwyr Cymunedau Caredig, er enghraifft, yn awyddus i bwysleisio bod y ffordd hon o weithio yn hanfodol er mwyn grymuso'r bobl a gaiff eu cefnogi trwy'r rhaglen. Roedd cydgynhyrchu yn elfen hanfodol o alluogi pawb a oedd yn dod draw i'w canolfannau cymunedol i gael rhan a llais cyfartal yn y prosiect.

Dywedodd cynrychiolydd un o'r clystyrau a gefnogwyd gan Cyswllt Amaeth fod y ffordd roedd y prosiect yn gweithio o'r gwaelod i fyny yn rhan hanfodol o'i lwyddiant. Roeddent yn dweud bod yn rhaid i fenter fel y clwstwr hwn weithio o'r gwaelod i fyny; ac yn wahanol i gynlluniau sy'n cael arian ac wedyn yn chwilio am bethau i'w gwneud, roedd y prosiect hwn yn rhoi iddynt y cyfle i oresgyn y diffyg arian ac arweiniad sy'n aml i'w weld ymhlith grwpiau ar lawr gwlad, gan alluogi'r syniadau i ddod o lawr gwlad i fyny.

Arloesi

Mae arloesi yn un o elfennau allweddol LEADER. Mae cyllido prosiectau peilot sy'n cynnig atebion arloesol i broblemau yn rhan greiddiol o'i ethos, ac o ganlyniad, caiff rhaglenni LEADER eu grymuso i fentro a chymryd risgiau. Er

y bydd rhai prosiectau a gyllidir yn methu, y parodrwydd i fentro yw'r hyn sy'n rhoi'r cyfle i archwilio atebion heb eu profi i broblemau mae cymunedau'n eu hwynebu.

Gwerth ychwanegol allweddol i ddull LEADER i nifer o weinyddwyr prosiectau y cyfwelwyd â hwy ar gyfer y gwerthusiad hwn oedd y parodrwydd hwn i fentro cyllido peilot a oedd yn newydd neu'n arloesol. Er enghraifft, mae Cymunedau Caredig yn mynd ati mewn ffordd arloesol i fynd i'r afael â problem ynysu cymdeithasol, gyda gweinyddwyr y prosiect eu hunain yn cydnabod nad oeddent yn sicr a fyddai'n llwyddiannus, er y gwaith paratoi ac ymgynghori a gyflawnwyd ymlaen llaw. Mae llwyddiant y prosiect penodol hwn yn dystiolaeth o barodrwydd rhaglen LEADER i arbrofi er mwyn annog arloesi.

Mae Tregaroc yn yr un modd yn rhoi enghraifft o gyllido ar gyfer prosiect a alluogodd y trefnwyr i fentro a bod yn uchelgeisiol gyda graddfa eu prosiect. Roedd hyn, eto, yn llwyddiannus iawn, gyda'r cynrychiolydd y siaradwyd â hi yn canmol y graddau roedd Cynnal y Cardi wedi eu galluogi i roi cynnig ar brosiect na fyddent wedi gallu mentro ei gyflawni fel arall.

Roedd rhai prosiectau yn fwy arloesol nag eraill. Roedd rhai yn fwy confensiynol yn eu cwmpas a'u dull. Er enghraifft, fe wnaeth prosiectau fel Camau Bach – Ystrad Fflur gyflawni ei ganlyniadau wrth ddilyn dulliau sydd wedi cael eu profi'n llwyddiannus o'r blaen.

Meithrin gallu a rhwydweithio

Mae llawer o'r prosiectau a adolygwyd yn dangos gwaith meithrin gallu. Er enghraifft, derbyniodd Area 43 gyllid a chymorth a alluogodd y sefydliad i ddatblygu gwasanaethau newydd pwysig, ymestyn cyrhaeddiad yr elusen a'i galluogi i ymwneud â phobl fregus y tu allan i'w gapasiti blaenorol. Mae Bwyd Dros Ben Aber yn rhoi enghraifft arall o sut mae cyllid a chymorth Cynnal y Cardi wedi galluogi sefydliad cymunedol poblogaidd i gyflawni gwaith gwerthfawr yn ymwneud â gwastraff bwyd a defnydd cynaliadwy o fwyd.

Efallai mai'r hyn a oedd yn dangos meithrin gallu yn fwyaf amlwg yw'r prosiectau hynny a adolygwyd lle'r oedd cymorth Cynnal y Cardi wedi arwain at sicrhau cyllid pellach o ffynonellau eraill. Mae prosiectau fel Bwyd Dros Ben Aber, Yma i Chi (Area 43), a Camau Bach, Ystrad Fflur, wedi gallu adeiladu ar y cymorth gan Cynnal y Cardi i sicrhau ffynonellau newydd o gyllid.

Mae meithrin gallu wedi bod yn amlwg hefyd gyda chymorth Cynnal y Cardi i fusnesau unigol yng nghyfnod 2007-2013 y rhaglen, a'i gefnogaeth i fudiadau cymunedol fel Cymdeithas Gwenynwyr Llambod. Mae'r offer a brynwyd i'r Gymdeithas, a chyllid i'r wefan ac adnoddau eraill ar gyfer ennyn diddordeb, wedi gwella gallu'r grŵp i hyfforddi aelodau hen a newydd, cyd-drafod â'u cymuned a chyflwyno addysg ar gadw gwenyn trwy bresenoldeb mewn sioeau a digwyddiadau. Mae'r swm cymharol fach o arian a ddarparwyd wedi galluogi'r Gymdeithas i gryfhau a thyfu. Yn yr un modd, fel wnaeth Ysgol Fenter y Cardi ddarparu cyllid ar gyfer yr hyfforddiant neu offer cychwynnol oedd ei angen i roi busnesau ar waith. Cyflawnwyd yr un effaith gan ddeorfeydd Neuadd y Farchnad Aberystwyth, lle rhoddodd y cyfle i feddiannu uned am dâl bach y symbyliad cychwynnol i fusnes dyfu.

Strategaeth integredig ac aml-sectorol

Mae Grŵp Gweithredu Ceredigion ynddo'i hun yn gorff aml-sectorol, gyda chynrychiolaeth o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r dull a'r cyfansoddiad aml-sectorol hwn yn bwysig ynddo'i hun, gan ei fod yn dod ag amrywiol grwpiau at ei gilydd i ddatblygu strategaeth gyfunol i fynd i'r afael â heriau Ceredigion.

Mae Strategaeth Datblygu Lleol Ceredigion wedi mynd ati mewn ffordd aml-sectorol i lunio strategaeth datblygu ar gyfer Ceredigion. Mae wedi mynd ati ymdrin â phum thema LEADER o fewn y Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru, yn ogystal â'r anghenion a nodir yn Strategaeth Datblygu Lleol Ceredigion. Mae Cynnal y Cardi felly wedi gweithio i ymdrin ag anghenion ar draws amrywiol o feysydd, gan gynnwys iechyd a llesiant, yr amgylchedd, yr

economi leol a busnesau lleol, sgiliau a seilwaith digidol, tloedi ac amddifadedd, sgiliau, hyfforddiant ac addysg, treftadaeth, diwylliant, a'r Gymraeg.

Dywedodd rhanddeiliad y siaradwyd ag ef, a oedd yn eistedd ar y Grŵp Gweithredu Lleol hefyd, fod pum thema LEADER wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer asesu prosiectau a gyflwynwyd iddynt ac er mwyn adnabod meysydd o wendid wrth eu cyflawni. Er enghraifft, wrth nodi bod prosiectau seiliedig ar iaith a diwylliant yn tueddu i fod yn fwy cyffredin, dywedodd y byddai'r themâu yn eu hatgoffa o'r angen o fynd ati'n rhagweithiol i geisio annog mentrau o fewn y meysydd digidol ac amgylcheddol.

Cydweithredu

Mae prosiectau cydweithredu gyda grwpiau gweithredu lleol a phartneriaid eraill yn ychwanegu gwerth at yr hyn a gyflawnir gan grŵp gweithredu lleol o fewn Awdurdod Lleol, ac mae'n galluogi partneriaethau i fynd i'r afael â materion sy'n rhychwantu dros sawl ardal ddaearyddol. Ar gyfer cyfnod 2014-2020 y rhaglen, roedd Cynnal y Cardi wedi penderfynu bod Biosffer Dyfi a Mynyddoedd Cambria yn flaenoriaethau penodol i brosiectau cydweithredu gyda grwpiau gweithredu lleol cyfagos. Hyd yma, mae cyfnod 2014-2020 wedi gweld Cynnal y Cardi yn cymryd rhan mewn naw o weithgareddau cydweithredu gyda phartneriaid.

Roedd cynrychiolwyr prosiectau cydweithredu y siaradwyd â hwy fel rhan o'r gwerthusiad hwn yn canmol cyfraniadau Cynnal y Cardi. Er enghraifft, roedd yn amlwg fod Cynnal y Cardi yn chwarae rhan allweddol o fewn Cynllun Cydweithredol Biosffer Dyfi wrth arwain y bartneriaeth rhwng y tri Awdurdod Lleol sy'n rhan ohono.

Cafodd y mwyafrif o'r prosiectau cydweithredu y cymerodd Cynnal y Cardi ran ynddynt eu cyflawni gyda Grwpiau Gweithredu Lleol cyfagos gan eu bod yn canolbwyntio ar weithgareddau daearyddol gydag ardaloedd daearyddol penodol sy'n ymestyn dros ffiniau siroedd. Mae'r prosiectau cydweithredu

wedi galluogi Awdurdodau Lleol sy'n ffinio â'i gilydd ymdrin â materion sy'n gyffredin iddynt, ac mae'n bwysig nodi eu bod wedi meithrin dull mwy strategol o fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd rhanbarthau penodol sy'n ymestyn ar draws gwahanol Awdurdodau Lleol.

Roedd un o gynrychiolwyr Dyfodol Cambria yn canmol rhyngweithio'r tri Awdurdod Lleol wrth weithio gyda'i gilydd i gefnogi'r prosiect, gyda Powys, Ceredigion, a Sir Gâr yn cynorthwyo'n fawr trwy eu rolau ar y Pwyllgor Monitro, a thrwy'r cymorth animeiddio roeddent yn ymwneud ag ef. O ganlyniad i'r prosiect cydweithredu hwn, mae arweinwyr twristiaeth pob un o'r tri Awdurdod Lleol wedi cychwyn cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd yn sgil y cyfleoedd y gall gydgysylltu strategol ar draws yr ardal eu cynnig.

Effaith a Diwallu Anghenion Ceredigion

Yma, rhoddir asesiad o'r canlyniadau a'r effeithiau a gyflawnwyd yng nghydestun anghenion penodol Ceredigion.

Iechyd, llesiant, a phoblogaeth sy'n heneiddio

Mae gan Geredigion boblogaeth sy'n heneiddio, sy'n rhoi straen ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ei natur wledig hefyd yn gwneud y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn fwy anodd, gyda phoblogaeth oedrannus wasgaredig yn fwy tebygol o fyw mewn rhannau gwledig o'r sir. Mae rhai o'r prosiectau a aseswyd wedi gwneud cyfraniadau cadarnhaol i iechyd a llesiant Ceredigion, mewn rhai achosion wrth weithio gyda phobl oedrannus a bregus yn y gymuned.

Mae Cymunedau Caredig yn sefyll allan fel modd arloesol o fynd i'r afael â phroblemau sy'n effeithio ar unigolion oedrannus sydd wedi eu hynysu mewn cymunedau gwledig. Roedd yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnwys pobl mewn cymunedau gwledig sydd mewn perygl o gael eu hynysu, ac a fyddai'n elwa o'r math o gymorth ymarferol dan arweiniad y gymuned roedd Sesiynau Cymunedau Caredig yn eu cynnal. Yn ogystal â chreu'r canolfannau celf a

chreffft cymunedol cynaliadwy, mae'r peilot hwn wedi gosod patrwm gwerthfawr ar gyfer y math o gamau y gellir eu datblygu ledled cymunedau Ceredigion i hyrwyddo llesiant y rhain a allai fel arall ddioddef o gael eu hynysu.

Mae'r cyllid ar gyfer Yma i Chi (Area 43) wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl gyda chymunedau gwledig mwy ynysig yng Ngheredigion. Arweiniodd y cyllid gan Cynnal y Cardi at gynnydd sylweddol yng ngallu'r elusen i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr trwy annog gwasanaethau cwnsela ar-lein.

Busnesau Ceredigion, yr Economi a Chyflogaeth

Mae Cynnal y Cardi wedi cael effeithiau cadarnhaol ar fusnesau yng Ngheredigion, ac mae wedi gosod sylfeini ar gyfer twf economaidd lleol yn y dyfodol. Roedd cyfnod 2007-2013 y rhaglen, yn sgil gwahanol reoliadau ynghylch cymorth gwladwriaethol, yn fwy abl i ddarparu cymorth i ddarpar-fusensau er mwyn gwireddu syniadau busnes. Arweiniodd Ysgol Fenter y Cardi ac adnewyddu Neuadd y Farchnad Aberystwyth at greu busnesau newydd a chyfleoedd cyflogaeth i'r unigolion a oedd yn ymwneud â hwy.

Yn ogystal, mae Cynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi a Dyfodol Cambrian wedi gwneud cyfraniad at ddatblygu'r economi leol trwy ddatblygu brandiau Biosffer Dyfi a Mynyddoedd Cambria ar gyfer cynnyrch bwyd a diod lleol.

Mae effaith economaidd sylweddol a chadarnhaol wedi deillio o Tregaroc, sy'n rhoi hwb blynyddol i fusnesau Tregaron, yn enwedig tafarndai a siopau bwyd lleol, trwy ddenu tua mil o bobl yn flynyddol i ddod i'r wyl gerddorol Gymraeg.

Amgylchedd Ceredigion

Mae Cynnal y Cardi wedi cyllido prosiectau i ymdrin â materion amgylcheddol, gan gynnwys dau brosiect ynni adnewyddadwy: Pweru'r Dyffryn, astudiaeth ddichonoldeb a phrosiect cyd-drafod â'r gymuned ar gyfer cynhyrchu ynni

adnewyddadwy yn nyffryn Aeron, ac Ynni Lleol De Ceredigion, prosiect i dreialu clybiau Ynni Lleol mewn dwy ardal.

Mae cynllun peilot Bwyd Dros Ben Aber wedi gwneud cyfraniad sylweddol at fynd i'r afael â gwastraff bwyd yn Aberystwyth. Mae'r fenter hon ar lawr gwlad i fynd i'r afael â gwastraff bwyd wedi sefydlu gwasanaeth llwyddiannus a gwerthfawr ian sy'n aildosbarthu symiau mawr o wastraff bwyd i elusennau, teuluoedd, ac unigolion. Mae wedi datblygu rhwydwaith helaeth o wirfoddolwyr sy'n cefnogi ei weithgareddau, ac mae wedi ymwneud â llawer iawn o waith ennyn diddordeb ac addysgu er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwnc gwastraff bwyd.

Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg

Mae nifer o brosiectau wedi gwneud cyfraniadau cadarnhaol i ddiwylliant a threftadaeth Ceredigion, ac i'r Gymraeg. Mae Tregaroc yn sefyll allan fel gweithgaredd sydd wedi cael effaith sylweddol ar y Gymraeg, gan ei fod wedi dod yn ddigwyddiad pwysig yn y calendr cerddorol Cymraeg, gan ddenu llawer iawn o sylw o fewn Ceredigion a'r tu hwnt i'r sir.

Mae Gŵyl Hen Linell Bell, prosiect cymuned ar raddfa fawr, a oedd yn ymwneud â chyfres o berfformiadau a digwyddiadau artistig yn Aberystwyth, wedi gwneud cyfraniad sylweddol at weithgarwch diwylliannol Aberystwyth. Gan dderbyn ysbrydoliaeth o chwedl Cantre'r Gwaelod, bu'r prosiect yn gweithio gydag ysgolion, busnesau, clybiau a chymdeithasau lleol i greu'r calendr o ddigwyddiadau, a oedd yn cynnwys gigs, gweithdai, a pherfformiadau. Enillodd Arad Goch, y cwmni theatr lwyfannodd yr ŵyl, wobwr Theatr Cymru am eu gwaith ar Hen Llinell Bell.

Cyfrannwyd at ddatblygu a diogelu treftadaeth Ceredigion gan brosiect fel Camau Bach a Phrosiect Bryngaer Pen Dinas. Nod y prosiectau hyn yw ennyn ddiddordeb cymunedau yn y safleoedd hyn o arwyddocâd hanesyddol. Mae Camau Bach yn rhan o ymdrech fwy i adeiladu arddangosfeydd newydd a datblygu safle Ystrad Fflur ymhellach.

Sgiliau, Hyfforddiant ac Addysg

Mae nifer o brosiectau wedi cyfrannu at sail sgiliau Ceredigion. Roedd Academi'r Dyfodol, er enghraifft, yn cynnwys pobl ifanc trwy weithdai rhyngweithiol gydag entrepreneuriaid ac arweinwyr busnes i'w hannog i ddilyn llwybrau hyfforddi galwedigaethol. Tarfwyd ar eu gwaith o ymwneud â phobl ifanc NEET (rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) gan Covid-19, ond mae'r peilot a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi wedi gosod patrwm gwerthfawr i annog mwy o bobl ifanc i'r cyfleoedd hyfforddiant galwedigaethol sydd eisoes ar gael yn y sir.

Cafodd prosiectau seiliedig ar sgiliau hefyd eu cyllido, megis yr Academi Arweinyddiaeth Gymunedol a Ceredigidol. Roedd Ceredigidol yn fenter i ddatblygu rhaglen hyfforddi gyfredol y Clybiau Ffermwyr Ifanc trwy greu fideos hyfforddi ar amrywiaeth o bynciau, a fideos hyfforddi ar gyfer unigolion a fyddai'n dal swyddi allweddol yn y mudiad, megis Cadeirydd, Trysorydd neu Ysgrifennydd. Bydd y prosiect yn gadael gwaddol barhaol a all sicrhau bod unigolion yn y Clybiau Ffermwyr Ifanc yn gallu datblygu'r sgiliau angenrheidiol i arwain y mudiad.

Effaith Hirdymor a Gwaddol Cynnal y Cardi

Mae nifer o brosiectau a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi wedi datblygu'n brosiectau neu sefydliadau cynaliadwy, gyda phrosiectau eraill, mwy byrdymor, neu brosiectau ac iddynt raddfa amser gyfyngedig, yn dal i gael effaith heddiw.

Mae nifer o'r prosiectau a gweithgareddau a adolygwyd, a gyllidwyd gan Cynnal y Cardi, wedi gadael gwaddol amlwg sy'n parhau. Mae'r rhain yn cynnwys Bwyd Dros Ben Aber, Tregaroc, Cymunedau Caredig, Cyswllt Amaeth, a Chymdeithas Gwenynwyr Llambod. Mae'r cyllid a dderbyniwyd wedi chwarae rôl allweddol yn y gweithgareddau sy'n parhau a ddeilliodd yn wreiddiol o gyllid LEADER.

Mae nifer o fuddiolwyr cynllun Ysgol Fenter y Cardi ac Unedau Deori Neuadd y Farchnad Aberystwyth hefyd yn dal i redeg busnesau y gwnaeth y mentrau hyn eu helpu i gychwyn.

Mae gan yr unedau deori y potensial i barhau i gynnig cyfleoedd gwerthfawr i fusnesau sy'n cychwyn. Mae'r buddsoddiad o gyfalaf yn eu hadeiladu wedi darparu ased hirdymor i Gyngor Sir Ceredigion y gellir parhau ei ddefnyddio.

Mae gan nifer o brosiectau sy'n dal i fynd y potensial i adael gwaddol barhaol. Er enghraifft, mae gan Gynllun Cydweithredu Biosffer Dyfi rywfaent o amser eto i fynd, gyda brand Blas Dyfi â'r potensial o gynnig cyfrwng gwerthfawr i ychwanegu gwerth at gynhyrchion o'r ardal. Mae Camau Bach – Ystrad Fflur yn brosiect sy'n gweithredu o fewn menter ehangach a mwy hirdymor gan Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur i ddatblygu'r safle. Yn yr ystyr hwn, mae Cynnal y Cardi yn gwneud cyfraniad at brosiect treftadaeth ehangach a fydd yn cyfrannu'n sylweddol at safle treftadaeth allweddol o fewn y sir.

Mae rhai prosiectau yn fwy anodd i asesu eu heffaith, gyda'r senario gwrthffeithiol yn llai eglur. Er enghraifft, roedd Academi'r Dyfodol yn llwyddiannus wrth annog cyfran sylweddol i'r bobl ifanc yr ymwnaed â hwy i gofrestru ar gyfer cyrsiau hyfforddi galwedigaethol yng Ngholeg Ceredigion, eto mae'n aneglur i ba raddau y dylanwadodd yr ymyrraeth ar bobl ifanc a fyddai wedi gwneud penderfyniadau gwahanol fel arall.

Mae gwaddol glir y prosiect penodol hwn, fodd bynnag, yn ymwneud â'r patrwm a ddatblygwyd ar gyfer dulliau o ymwneud â phobl ifanc. Er bod Covid-19 wedi tarfu ar y gwaith a gynlluniwyd gyda phobl ifanc NEET, mae'r gwaith a gyflawnwyd yn rhoi gwersi pwysig ar gyfer prosiectau tebyg yn y dyfodol, ac mae'n ategu mentrau eraill ledled Cymru sy'n defnyddio arbenigedd diwydiannol a busnes lleol i ysbrydoli, pobl ifanc, megis STEM Gogledd yn y gogledd.

Yn yr un modd, mae llawer o brosiectau a gweithgareddau a gyllidir gan Cynnal y Cardi yn gosod patrymau ar gyfer prosiectau arloesol y gellir eu datblygu ymhellach mewn gwahanol gymunedau ledled Cymru ac mewn sectorau gwahanol. Gellir defnyddio nifer o'r prosiectau a adolygwyd fel esiamplau o atebion arloesol i broblemau y gall cymunedau eu hwynebu, a gellir eu lledaenu er mwyn ysbrydoli camau gweithredu tebyg mewn lleoedd eraill.

Argymhellion

Cynhwysir yma gyfres o argymhellion ar gyfer rhaglennu datblygu lleol dan arweiniad y gymuned yn y dyfodol, sy'n deillio o'r gwersi a ddysgwyd a ddaeth i'r amlwg trwy'r gwerthusiad hwn.

Argymhelliad 1 – Mae casglu tystiolaeth o fuddion cymdeithasol sy'n deillio o ymyraethau yn anodd, ond rhaid mynd ati bob tro i archwilio dewisiadau arloesol a dewr o fesur budd cymdeithasol. Mae hyn yn arbennig o wir am LEADER, gan ei fod yn aml yn cyllido ymyraethau ac iddynt ganlyniadau anodd eu mesur, gyda chanlyniadau ac effeithiau "meddal" a allai fod yn sylweddol.

Argymhelliad 2 – Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r prosiectau mwyaf arloesol yn cael eu lledaenu mewn modd addas o fewn Ceredigion a gyda Grwpiau Gweithredu Lleol eraill ledled Cymru a'r tu hwnt. Mae prosiectau fel Academi'r Dyfodol, Cymunedau Caredig, Yma i Chi (Ardal 43), a Bwyd Dros Ben Aber mewn sefyllfa dda i ysbrydoli mentrau tebyg mewn lleoedd eraill a all barhau i ddatblygu atebion arloesol i'r problemau sy'n wynebu amryw o gymunedau.

Argymhelliad 3 – Sicrhau bod y Grŵp Gweithredu Lleol, yn ogystal â chraffu a dewis prosiectau, yn cael ei ddefnyddio fel fforwm i ddatblygu syniadau o'r newydd neu eisoes ar y gweill. Sicrhau bod amser y Grŵp Gweithredu Lleol yn cael ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithlon i roi amser i ymwneud â phrosiectau. Un mecanwaith allweddol er mwyn sicrhau hyn yw rhoi adborth o

sylwedd i'r grŵp gweithredu lleol ar brosiectau, ac efallai y dylid ystyried sut y caiff adroddiadau a chyflwyniadau cynnydd a rhyngweithiadau gyda chydgyssylltwyr prosiectau eu defnyddio er mwyn, yn gyntaf, sicrhau bod y Grŵp Gweithredu Lleol yn cael ei ddiweddarau'n ddigonol i allu cyfrannu at gyflawni prosiectau, ac yn ail, rhoi cyfle i aelodau'r Grŵp Gweithredu Lleol i ymateb i brosiectau gyda syniadau a chanllawiau.

Argymhelliad 4 – Roedd rhai prosiectau'n dibynnu'n helaeth ar amser ychwanegol a roddwyd gan y prif drefnwyr y tu hwnt i'r oriau craidd neu'r swyddogaethau a gyllidwyd ar eu cyfer trwy Cynnal y Cardi. Er bod gwirfoddoli'n rhan annatod o redeg grwpiau a phrosiectau cymunedol, os caiff swyddogaethau unigol ar gyfer cydgyssylltu neu reoli prosiectau eu creu trwy gyllid Cynnal y Cardi, mae angen parodrwydd i ddigolledu'r unigolion hyn yn addas am eu hamser a'u cyfraniad. Roedd rhai enghreifftiau lle'r oedd oriau roedd hwyluswyr neu gydgyssylltwyr prosiectau yn cael eu talu amdanynt yn cael eu hategu gan lawer o oriau ychwanegol a wirfoddolwyd. Argymhellir y dylid, wrth adolygu ceisiadau am brosiectau, ystyried pa mor realistig yw'r rolau y bwriedir eu cyllido, ac a oes angen dyrannu arian ychwanegol ar gyfer digolledu unigolion yn addas am eu llafur.

Argymhelliad 5 – Roedd ychydig o feirniadaeth gan un gweinyddwr prosiect y siaradwyd ag ef fod cymorth gweinyddol gan Cynnal y Cardi yn canolbwyntio'n ormodol ar wella'r ffordd roedd y sefydliad yn casglu tystiolaeth, a bod cyfleoedd am hyfforddiant ehangach mewn gweinyddu a rheoli sefydliadau yn cael eu colli. Y teimlad oedd y byddai'r rhain yn ffordd well o feithrin gallu hirdymor. Argymhellir manteisio ar gyfleoedd i ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol i arweinwyr prosiectau, er mwyn ychwanegu gwerth ychwanegol at y cyllid a'r cymorth a ddarperir gan Cynnal y Cardi, a gwella gallu'r sefydliadau cymunedol a gyllidir.

Argymhelliad 6 – Adeiladu ar y profiad mae staff Cynnal y Cardi wedi ei ddatblygu dros ddau gyfnod blaenorol y rhaglen a sicrhau y bydd unrhyw fentrau datblygu lleol dan arweiniad y gymuned yn y dyfodol yn gallu

manteisio ar yr arbenigedd sydd wedi cael ei ddatblygu trwy weithredu
LEADER.